



## ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL CYMDEITHAS TAI LINC CYMRU CYFYNGEDIG

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020



Creu'r amgylchedd iawn i bobl ffynnu



[www.linc-cymru.co.uk](http://www.linc-cymru.co.uk)

**Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol  
Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer  
y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020**



# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Cynnwys	Tudalen
Adroddiad Strategol	1
Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu	8
Adolygiad Ariannol ac Adolygiad Perfformiad	20
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	29
Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr	32
Datganiad y Gymdeithas o Incwm Cynhwysfawr	33
Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol	34
Datganiad y Gymdeithas o'r Sefyllfa Ariannol	35
Datganiad Cyfunol o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn	36
Datganiad y Gymdeithas o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn	36
Datganiad Cyfunol o Lif Arian	37
Nodiadau'n ymwneud â'r Datganiadau Ariannol	38
Crynodeb 7 Mlynedd o'r Adolygiad Gweithredu a'r Adolygiad Ariannol	67



## Adroddiad Strategol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Mae'r Bwrdd Rheoli yn cyflwyno'i adroddiad strategol ar faterion Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig (Linc), ynghyd â'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilyr, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.

Busnes annibynnol sy'n darparu tai i'w gosod a'u gwerthu yw Linc, ac mae hefyd yn darparu gwasanaethau gofal a chymorth i bobl mewn angen. Rydym yn fusnes nad yw'n dosbarthu elw, a chaiff yr arian dros ben ei ail-fuddsoddi er mwyn ymestyn mwy ar ein gweithgareddau. Nid oes gan Aelodau Cyfranddaliadol Linc hawl i unrhyw incwm neu ddsbarthiad cyfalaf.

Mae'r cartrefi a ddarparwn yn cynnwys cartrefi rhent – sef cartrefi rhent cymdeithasol a chartrefi rhent y farchnad. Rydym wedi datblygu eiddo rhanberchnogaeth sy'n cynnig cyfle i bobl fod yn berchen ar eu cartref. Rydym yn cynnig eiddo amrywiol sy'n darparu ar gyfer pobl ag anghenion cymorth, yn cynnwys tai â chymorth a thai gwarchod, llety gofal ychwanegol a chartrefi nyrsio cofrestredig ledled De Cymru.

### Statws Cyfreithiol a Strwythur Grŵp Cymdeithas Tai Linc Cymru

Mae Linc yn Gymdeithas Gofrestredig dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Mae Linc wedi cofrestru fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig gyda Llywodraeth Cymru, Rhif Cofrestru L109, a chydâ'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Rhif Cofrestru 25555R. Mae Linc wedi cofrestru dan Reolau Elusennol.

Ar 31 Mawrth 2020, roedd Grŵp Cymdeithas Tai Linc-Cymru yn cynnwys Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig a'i is-gwmni Tarbed Cyfyngedig, y mae'n berchen yn llwyr arno. Mae Tarbed Cyfyngedig yn gwmni cyfyngedig sydd wedi cofrestru dan y Ddeddf Cwmnïau ac mae'n mynd i'r afael â gweithgareddau datblygu yn gyfan gwbl ar ran Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig.

Mae Linc a'i is-gwmni, Tarbed Cyfyngedig, yn aelodau o Gartrefi Cymunedol Cymru Cyfyngedig.



# Adroddiad Strategol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

## Busnes Hyfyw

Caiff gweithgareddau Linc, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad yn y dyfodol, ei sefyllfa ariannol, ei ddulliau rheoli risgiau, manylion am ei offerynnau ariannol, a'i gysylltiad â risgiau credyd, hylifedd a llif arian, eu nodi yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw. Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r rhagolygon llif arian a'r amcanestyniadau ariannol eraill, ac yn arbennig mae wedi ystyried effaith Covid 19 ar y busnes hyfyw. Caiff y goblygiadau sydd ynghlwm wrth Covid 19, ynghyd ag ymateb Linc, eu nodi isod.

Mae gan Linc adnoddau ariannol sylweddol ac, o ganlyniad, cred y Bwrdd fod Linc mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes yn llwyddiannus er gwaethaf yr ansicrwydd presennol yn y sector tai cymdeithasol, yn cynnwys effaith Covid 19.

Ar ôl gwneud ymholiadau, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol fod Linc yn meddu ar adnoddau digonol i barhau i fodoli'n weithredol hyd y gellir rhagweld. Yn unol â hynny, mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad y gall barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

## Covid 19

Mae cyflymdra a lledaeniad Covid 19 wedi mynnu bod y gymdeithas a busnesau yn addasu'n gyflym, a rhoddodd Deddf y Coronafeirws 2020 bwerau argyfwng i'r llywodraeth – pwerau nas defnyddiwyd ers yr Ail Ryfel Byd. Yn wahanol i nifer o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill, mae Linc wedi'i wreiddio'n gadarn yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a thai, ac mae hyn wedi esgor ar yr angen i greu ymateb mwy amlhaenog.

Roedd creu fframwaith llywodraethu cyson a dibynadwy ar gyfer Covid-19 yn hollbwysig yn yr ymateb. Cafodd Tîm Parhad Busnes ei ffurfio ar gychwyn y pandemig, a bu'n cyfarfod yn ddyddiol i rannu diweddariadau polisi allweddol, i gytuno ar benderfyniadau i ddiogelu staff, tenantiaid a phreswylwyr, ac i sicrhau bod modd i swyddogaethau a oedd yn bwysig i'r busnes allu parhau. Roedd yr heriau a wynebwyd yn cynnwys adnoddau staff yn ein cartrefi nyrsio oherwydd lefelau uchel o absenoldeb staff yn sgil hunanynysu, cael gafael ar Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol a sicrhau ein bod yn gallu dilyn y newidiadau cyflym yng nghanllawiau'r llywodraeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud hi'n ofynnol i'r fframwaith llywodraethu barhau, yn cynnwys mapio ac asesu risgiau. Mae Covid-19 wedi esgor ar bwysau ychwanegol trwy'r holl fusnes, ac mae asesu risgiau, ynghyd â dadansoddi tueddiadau, yn rhan o'n hymdrechion i liniaru'r effeithiau gwaethaf. Mae hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch y sefyllfa sy'n esblygu ar draws gwasanaethau Linc, a sicrhau ein bod yn gwybod y diweddaraf am ofynion rheoleiddiol, yn helpu i ddiogelu Linc yn ystod y cyfnod Covid-19 a thu hwnt.

Yn ystod y pandemig mae ein cartrefi gofal wedi gweld mwy o leoedd gwag. O ran cwrdd â'r incwm coll, rydym wedi cael llawer o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru trwy gyfrwng yr Awdurdodau Lleol. Yn y tri mis hyd at 30 Mehefin 2020, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer 100% o'r colledion lleoedd gwag a ddigwyddodd oherwydd COVID 19, ac mae wedi cadarnhau cyllid ar gyfradd o 90% o'r colledion lleoedd gwag ar gyfer y tri mis rhwng Gorffennaf 2020 a Medi 2020. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y cymorth hwn yn parhau tan fis Mawrth 2021. Nid yw lefel y cymorth ar gyfer y cyfnod estynedig hwn wedi'i gadarnhau eto. Caiff yr arian ei dalu yn ôl cyfradd ffioedd yr Awdurdod Lleol.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau yn sgil y lefelau trosglwyddo is, mae Linc wedi parhau i gynllunio ar gyfer unrhyw ail don. Mae cynllun Parhad Busnes Covid-19 wedi'i lunio, lle rhoddir ystyriaeth i'r gwersi a ddysgwyd yn sgil ton gyntaf y pandemig, ac mae gwaith ar y gweill i sicrhau y bydd modd i'n gwasanaethau craidd barhau pe bai unrhyw don arall yn digwydd yn y dyfodol.



# Adroddiad Strategol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

## Amcanion Busnes Strategol

Mae Linc yn cyfrannu'n fawr at ddatblygu a rheoli ystod eang o atebion tai yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys tai anghenion cyffredinol, tai gwarchod a thai â chymorth, ynghyd â thai gofal ychwanegol a gofal nyrsio. Ar y cyd â'r Tîm Gweithredol, mae'r Bwrdd yn anelu at weld twf ym mhob rhan o'n gweithrediadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed yn ymwneud â chartrefi fforddiadwy ar gyfer tymor presennol y Llywodraeth, sef 20,000 o gartrefi. Dyma darged uchelgeisiol, ac un y mae Linc wedi ymrwymo i geisio'i gyflawni.

Caiff pob cynnig busnes newydd ei werthuso'n ofalus gyda diwydrwydd dyladwy priodol. Nid ydym yn mynd ar drywydd pob cyfle. Os na fydd cynllun yn bodloni ein meini prawf llym, ni fyddwn yn bwrw ymlaen ag ef.

Rydym yn parhau i esblygu ein strategaethau rheoli tai a rheoli asedau, gan sicrhau ein bod yn cynnig cymorth priodol i'n tenantiaid wrth i fwy o newidiadau diwygio lles gael eu rhoi ar waith, gan fynd ati'r un pryd i gynnal a chadw ein heiddo hyd at safonau derbyniol a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru.

## Amcanion Corfforaethol Strategol

Rydym yn parhau i roi ein dull ar waith, gan symleiddio'r hyn a wnawn fel busnes a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig. Rydym yn defnyddio data ac yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gamau sy'n ysgogi ein pwrpas ac yn esgor ar yr effaith fwyaf. Pwrpas allweddol Cynllun Busnes OneLinc, a lansiwyd yn 2019, yw 'Creu'r amgylchedd iawn i bobl ffynnu'. Er mwyn creu'r amgylchedd iawn i bobl ffynnu, caiff ei ategu gan ein gwerthoedd, sef Angerddol, Uchelgeisiol a Llawn Parch. Bob blwyddyn, rydym yn llunio cynllun gweithredu er mwyn bwrw ymlaen â'n Cynllun Busnes OneLinc.

Mae pandemig y Coronafeirws COVID-19 wedi esgor ar heriau nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen mewn perthynas â'n gwasanaethau, yr hyn a gyflawnwyd a'r ffordd y cafodd ei gyflawni. Gwelwyd newid dirfawr yn niwrnod gweithio y rhan fwyaf o bobl. Mae rhagdybiaethau o ran yr hyn sy'n bwysig a'r ffordd rydym yn cyflawni ein nodau wedi newid.

Er bod y ffordd roeddem yn gweithio wedi newid, parhaodd ein Diben a'n Gwerthoedd i fod yn ganolog. Arhosodd y rhain wrth galon a chraidd ein gwaith, a dyna hefyd hanes ein themâu allweddol – sef 'Busnes Ffyniannus', 'Llesiant a Datblygiad Personol', 'Gwasanaethau Modern a Rhagorol' a 'Busnes Newydd a Thwf'. Mae ein huchelgais yn dal i fod yn gryf ac mae'n dal i gyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Isod gwelir y nodau strategol dan bedair thema ein Cynllun Busnes.

## 1. Busnes Newydd a Thwf

Ein nodau OneLinc:

- Creu 1,700 o gartrefi newydd erbyn 2026 a fydd yn cefnogi ansawdd bywyd da.
- Darparu cartrefi i'w gwerthu i gefnogi ein buddsoddiad parhaus mewn tai fforddiadwy.
- Ymestyn ein defnydd o ddulliau adeiladu modern i greu datblygiadau cynaliadwy ac amgylcheddol ymwybodol.
- Ffurfio partneriaethau er mwyn esgor ar atebion sy'n bodloni anghenion ieuchyd, tai, hamdden a gweithleoedd.

# Adroddiad Strategol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

## 2. Llesiant a Datblygiad Personol

Ein nodau OneLinc:

- Llunio arferion ac amgylcheddau gwaith sy'n cefnogi llesiant.
- Buddsoddi mewn staff a phreswylwyr er mwyn gwneud yn fawr o'u talentau.
- Dysgu a gwella trwy ymchwil ac arloesi.
- Meithrin sgiliau sy'n cefnogi Linc fel busnes modern.

## 3. Gwasanaethau Modern a Rhagorol

Ein nodau OneLinc:

- Cyflwyno gwasanaethau digidol i fodloni anghenion newidiol ein cwsmeriaid.
- Buddsoddi mewn systemau sy'n cynorthwyo ein staff i weithio'n effeithlon.
- Defnyddio data a threiddgarwch er mwyn cynorthwyo i wneud penderfyniadau.
- Dysgu a gwella trwy ymchwil a phartneriaeth.

## 4. Busnes Ffyniannus

Ein nodau OneLinc:

- Cefnogi uchelgais gymdeithasol ac economaidd cwsmeriaid.
- Cynnwys ein cwsmeriaid, gwrando ar eu syniadau, dysgu yn eu sgil a gweithredu ar eu sail.
- Gwerth am Arian yn arwain gwelliannau i greu capasiti.
- Darparu fframwaith llywodraethu modern.



# Adroddiad Strategol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

Yn ystod 2019, aeth y Bwrdd ati i ailddatgan y canlynol:

1. Yr egwyddor o adeiladu hyd at 1,700 o gartrefi newydd. Mae cynlluniau datblygu ar gyfer 1,055 o'r cartrefi newydd hyn wedi'u pennu a bydd y cartrefi'n cael eu hadeiladu yn ystod y cyfnod pum mlynedd rhwng 2020/21 a 2024/25.
2. Y dylai'r ffocws ar dwf barhau yn ein meysydd traddodiadol, heb ddiystyru cyfleoedd annisgwyl sy'n deillio o dro i dro o rannau eraill o Gymru, a all ychwanegu gwerth at ein busnes craidd.
3. Y dylai'r Bwrdd archwilio sut gellir cyflawni capasiti ariannol mwy fyth heb danseilio gallu parhaus Linc i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'w asedau cyfredol.

## Rheoli Risgiau

Mae gan Linc ddull datblygedig o bennu a gwerthuso Risgiau. Mae Grŵp Rheoli Risgiau Linc, sy'n cynnwys Penaethiaid Gwasanaethau o bob rhan o'r sefydliad, yn cyfarfod bob chwarter i adolygu risgiau presennol a phennu unrhyw risgiau newydd sydd wedi dod i'r amlwg. Caiff Cofrestrau Risgiau eu cadw ar gyfer holl rannau gweithredol y Busnes, a bob chwarter mae'r Grŵp Rheoli Risgiau yn adrodd i'r Uwch Dîm Arwain sy'n ystyried argymhellion y Grŵp Rheoli Risgiau ac yn adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yng ngoleuni'r argymhellion hyn. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys y risgiau hynny mae'r Uwch Dîm Arwain yn barnu eu bod yn risgiau strategol sy'n wynebu'r sefydliad. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn adrodd i'r Bwrdd bob chwarter ynghylch y Risgiau Corfforaethol allweddol a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Caiff y risgiau strategol allweddol a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein gweledigaeth strategol eu nodi isod.

## Diwygio Lles

Y risg sy'n gysylltiedig â diwygio lles, yn arbennig effaith Credyd Cynhwysol, yw pobl yn peidio â thalu rhenti. Bydd hyn yn lleihau ein hincwm ac yn cynyddu ein costau wrth i ni ddefnyddio adnoddau ychwanegol i gasglu ôl-ddyledion.

Mae gennym Strategaeth a Chynllun Gweithredu Diwygio Lles, ac mae gennym Dîm Cynghori Ariannol mewn lle. Rydym yn adolygu proffil ein tenantiaid yn barhaus, ac rydym yn pennu tenantiaid agored i niwed fel y gellir eu cynghori a'u cynorthwyo.

## Cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol

Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol, sef £9 yr awr fan leiaf, wedi cael effaith sylweddol ar sylfaen costau Linc, a bydd yn parhau i gael effaith o'r fath yn y dyfodol. Rydym yn cyflogi nifer fawr o ofalwyr yn ein cartrefi gofal, a nifer fawr o staff yn ein timau rheoli cyfleusterau, sy'n elwa ar y cyfraddau cyflog uwch hyn fesul awr.

Rydym yn parhau i fodelu effaith barhaus y cynnydd hwn ac mae ein rhagolygon ariannol yn ddigon cadarn i gwrdd â'r costau ychwanegol.

## Methiannau Iechyd a Diogelwch

Mae methiannau lechyd a Diogelwch sy'n achosi anaf corfforol, marwolaeth neu afiechyd difrifol, yn fethiannau sy'n berthnasol i bob rhan o'r busnes. Rhoddir ystyriaeth ddifrifol iawn i ddiogelwch ein tenantiaid, ein preswylwyr a'n staff, ac mae gennym ystod o fesurau rheoli a diogelu ar waith i gynnal a gwella ein safonau uchel. Rydym yn mynd ati bob mis i adolygu dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, ac rydym wedi datblygu rhaglen dysgu a datblygu eang er mwyn i'n holl staff fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn. Awn ati i adrodd i'r Bwrdd bob mis ynglŷn â'n perfformiad o ran iechyd a diogelwch, a bob blwyddyn fan leiaf mae'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu a hyfforddi yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom recriwtio adnodd ychwanegol at ein tîm lechyd a Diogelwch.



# Adroddiad Strategol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

## Cartrefi Nyrsio

Mae yna nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â'n cartrefi nyrsio. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys:

- Arolygiaeth Gofal Cymru yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio, a allai arwain at gamau i ddadgofrestru cartref.
- Marwolaeth, anaf neu gamdriniaeth oherwydd ymarfer gwael mewn cartref. Yn ychwanegol at yr effaith niweidiol ar yr unigolyn, fe allai hyn arwain at niwed o ran enw da a chael effaith ar ddichonoldeb y cartref.
- Dod i gysylltiad â strategaethau arbed arian a roddir ar waith gan gomisiynwyr yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a allai arwain at bwysau ar ddichonoldeb ariannol gwasanaethau Gofal Linc.

Mae gennym fesurau rheoli cadarn ar waith i ymdrin â'r risgiau hyn. Gellir cadarnhau mai prin iawn y mae achosion o'r fath yn digwydd a bod pob un o'r cartrefi wedi cael adroddiadau cadarnhaol iawn gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae gennym nifer o fesurau rheoli ar waith i ymdrin â strategaethau arbed arian, yn cynnwys sicrhau bod ein contractau â chomisiynwyr yn gadarn mewn termau ariannol, dangos gwerth am arian yn y gwasanaethau a ddarparwn i'n preswylwyr, a sicrhau bod yna amgylchedd codi ffi/incwm.

Ym mis Gorffennaf 2019, fe wnaethom benodi Richard Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Linc, fel Unigolyn Cyfrifol Linc. Er mwyn bodloni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru, aeth Bwrdd Linc ati i gymeradwyo penodiad Richard fel Cyfarwyddwr Anweithredol cyfetholedig, a hynny am gyfnod o chwe mis. Mae'r penodiad hwn wedi'i adnewyddu ddwywaith ers hynny, am chwe mis ar y tro. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r penodiad unwaith eto ym mis Ionawr 2021.

Daeth risg ychwanegol fawr i'r amlwg o fewn y cartrefi nyrsio yn ystod chwarter cyntaf 2020, pan ddaeth COVID-19. Fe wnaeth y pandemig ein harwain i werthuso ac ymateb i'r risgiau a wynebier gan ein preswylwyr a'n staff, ynghyd â'r effaith ariannol ar lefelau defnydd. Fel y nodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn, ymatebodd ein staff mewn modd a ddiogelodd ein preswylwyr a hwy eu hunain, gan ein rhoi mewn sefyllfa gadarnhaol pe bai ail don yn digwydd.

## Cyswllt Rheoleiddiol

Y risg yw na fydd Linc yn cymryd camau priodol mewn perthynas â'r meysydd Cyswllt Rheoleiddiol. Mae gennym gyswllt rheoleiddiol ystyrion a gaiff ei gofnodi'n fanwl, ynghyd â pherthynas gref sy'n agored ac yn dryloyw.

## Amcanion a Pholisïau Rheoli Risgiau Ariannol

Mae gweithgareddau Linc yn dod ag ef i gysylltiad â nifer o risgiau ariannol, yn cynnwys risg llif arian, risg hylifedd a risg credyd. Caiff y defnydd o ddeilliadau ariannol ei lywodraethu gan bolisiau Linc – sef polisiau a gymeradwywyd gan y Bwrdd – lle nodir egwyddorion ysgrifenedig yn ymwneud â defnyddio deilliadau ariannol i reoli'r risgiau hyn. Nid yw Linc yn defnyddio offerynnau ariannol deilliannol at ddibenion tybiannol. Nid oedd unrhyw offeryn ariannol deilliannol ar waith ar ddiwedd y flwyddyn.

## Risg Llif Arian a Hylifedd

Mae gweithgareddau Linc yn dod ag ef i gysylltiad â risgiau ariannol yn ymwneud â newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae gan Linc bortffolio benthyciadau amrywiol sy'n cynnwys benthyciadau cyfradd llog amrywiol, benthyciadau cyfradd llog sefydlog a benthyciadau indecs gyswllt. Nid yw Linc yn llunio contractau deilliannol cymhleth.

Er mwyn cynnal hylifedd i sicrhau bod cronfeydd digonol i'w cael ar gyfer gweithrediadau parhaus a datblygiadau yn y dyfodol, mae Linc yn defnyddio cymysgedd o gyllid hirdymor a byrdymor i ariannu dyledion.

Mae enghreifftiau o fethiannau i'w cael yn y sector. Digwyddodd y rhain oherwydd methiannau mewn llif arian, gyda'r sefydliad yn methu cwrdd â thaliadau contractiol. Mae gan Linc bolisiau rheoli'r trysorlys ar waith, yn cynnwys polisiau benthycia a buddsoddi gyda gwaith monitro rheolaidd ar ein sefyllfa arian parod, fel y mae'r sefyllfa yn awr a thrwy ragweld y sefyllfa yn y dyfodol, fel y gallwn leihau'r siawns o ddod i gysylltiad â risgiau.

# Adroddiad Strategol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

## Risg Credyd

Balansau banc ac arian parod, ôl-ddyledion rhent a symiau derbyniadwy eraill yw prif asedau ariannol Linc. Gellir priodoli risg credyd Linc yn bennaf i'w ôl-ddyledion rhent. Caiff y symiau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol eu cyflwyno ar ôl ystyried dyledion drwg. Cyfyngedig yw'r risg credyd ar gronfeydd hylifol, oherwydd mae'r partion i gontract yn fanciau a chanddynt statws credyd uchel a bennir gan asiantaethau statws credyd rhyngwladol. Nid oes gan Linc unrhyw gasgliad sylweddol o risgiau credyd, ac mae'r cysylltiad â risgiau wedi'i wasgaru dros nifer fawr denantiaid a phartion i gontract.

## Rhagolygon ar gyfer y Dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed yn ymwneud â chartrefi fforddiadwy ar gyfer tymor presennol y Llywodraeth, sef 20,000 o gartrefi. Dyma darged uchelgeisiol, ac un y mae Linc wedi ymrwymo i geisio'i gyflawni.


Rydym wedi pennu rhaglen ddatblygu'n ymwneud â mwy na 1,000 o dai cymdeithasol a ddaw i reolaeth yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae ein modelau ariannol 30 mlynedd yn dangos bod gennym gryn dipyn o gapasiti ychwanegol ar gyfer datblygu.

Rydym yn rhoi deg o gynlluniau gofal ychwanegol ar waith yng Nghaerdydd, yng Nghasnewydd, yng Nglynebwy, ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn Aberdâr. Caiff y cynlluniau hyn, a ddatblygir gyda Grant Tai Cymdeithasol, eu gosod ar ein les tenantiaeth safonol. Agorodd ein cynllun gofal ychwanegol cyntaf gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf ym mis Mai 2020, ac fe'i lleolir yn Aberdâr. Mae ein rhaglen ddatblygu gyfredol yn cynnwys 4 o gynlluniau gofal ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf, ac mae'r cynllun nesaf ym Mhontypridd wrthi'n cael ei adeiladu. O gofio ein gweithrediadau presennol, ein sefydlogrwydd ariannol a'n hadnoddau, ystyriwn fod rhagolygon Linc ar gyfer y dyfodol, o ran bodloni'r anghenion cynyddol am dai a gofal, yn parhau i fod yn gadarnhaol.

## Cymdeithas Tai Baneswell Cyfyngedig

Ym mis Hydref 2018, estynnodd Cymdeithas Tai Baneswell (CTB) wahoddiad i Gymdeithasau Tai yng Nghymru gyflwyno datganiadau o ddi-ddordeb mewn trosglwyddo ymrwymadau. Roedd CTB yn chwilio am bartner i ddiogelu ei busnes llwyddiannus oherwydd bod yr economi yn fwy anrhagweladwy, oherwydd ansicrwydd yn ymwneud â Diwygio Lles ac oherwydd y symud tuag at ddigidoleiddio. Roedd CTB yn berchen ar 70 o gartrefi yng nghanol Casnewydd. Roedd y cartrefi hyn mewn cyflwr da, heb unrhyw ddyledion morgais yn ddyledus. Roedd CTB yn esgor ar wargedion blynyddol, roedd yn gryf yn ariannol, ac roedd ganddi bresenoldeb rhagorol yn y gymuned. Penderfynodd CTB ddewis Linc fel ei hoff bartner, ac yn dilyn diwydrwydd dyladwy helaeth cafodd y trosglwyddo ymrwymadau rhwng CTB a Linc ei gofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar 4 Hydref 2019. Cafodd asedau a rhwymedigaethau CTB eu trosglwyddo i Linc, ac mae'r enillion ar y trosglwyddo ymgymeriadau, sef cyfanswm o £2,363,000, wedi'u cynnwys yn y canlyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, a chânt eu datgelu yn nodyn 2(a) y datganiadau ariannol. Ar ôl trosglwyddo, roedd gan holl aelodau cyfranddaliadol CTB hawl gyfreithiol ar y dyddiad trosglwyddo i ddod yn aelodau cyfranddaliadol o Linc. Penderfynodd saith o gyfranddaliadwy CTB arfer eu hawl ac maent bellach yn aelodau cyfranddaliadol o LINC.

Cymeradwywyd gan y Bwrdd a llofnodwyd ar ei ran gan:



Richard Norton  
Cadeirydd



Julia Attwell  
Is-gadeirydd

# Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Prif Amcanion a Gweithgareddau

Prif amcanion a gweithgareddau Linc yw darparu llety rhent, ynghyd â gwasanaethau gofal a chymorth, i bobl mewn angen.

## Swyddfa Gofrestredig

387 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 1GG

## Cynghorwyr Proffesiynol

### Archwilwyr Mewnol:

TIAA Ltd  
Artillery House  
Newgate Lane  
Fareham  
PO14 1AH

### Archwilwyr Allanol:

Gran Thornton UK LLP  
Llawr Chwech  
3, Sgwâr Callaghan  
Caerdydd CF10 5BT

### Bancwyr:

Banc HSBC PLC  
56 Stryd y Frenhines  
Caerdydd  
CF10 2PX

### Cyfreithwyr:

Blake Morgan LLP  
Un Sgwâr Canolog  
Caerdydd  
CF10 1FS

### Cyfreithwyr:

Hugh James LLP  
Dau Sgwâr Canolog  
Caerdydd  
CF10 1FS

## Aelodau'r Bwrdd



### Richard Norton, Cadeirydd

Gyda mwy na 25 mlynedd o brofiad yn gweithio mewn rolau ariannol yn y maes gweithgynhyrchu, ymunodd Richard â Bwrdd Linc ym mis Mai 2014 a daeth yn Gadeirydd y Bwrdd ym mis Mawrth 2018. Mae Richard hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau.



### Julia Attwell, Is-gadeirydd

Mae Julia yn gweithio yn y maes Datblygu Busnes ar gyfer elusen iechyd meddwl a hi yw Rheolwr Gyfarwyddwr Ffocws Consulting Cyf. Mae Julia yn aelod o sawl Bwrdd yn Ne Cymru ac ymunodd â Bwrdd Linc ym mis Mehefin 2016. Daeth yn Is-gadeirydd y Bwrdd ym mis Mehefin 2018 a hefyd mae'n Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Datblygu a'r Pwyllgor Tâl.



## Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)



### Richard Miles

Richard yw Pennaeth Cynilion/Rheolwr Ardal Cymdeithas Adeiladu Abertawe. Enillodd fwy na 27 mlynedd o brofiad gyda'r gwasanaethau ariannol yn y sector bancio/cymdeithasau adeiladu, yn bennaf yng Nghanolbarth Lloegr a Chymru. Ymunodd Richard â Bwrdd Linc ym mis Ebrill 2019, fel aelod cyfetholedig. Mae'n Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Tâl, ac mae'n Gyfarwyddwr Tarbed Cyfyngedig, is-gwmni Linc. Bydd yn ymuno â'r Pwyllgor Llywodraethu Pensiynau ym mis Medi 2020.



### Bev Mills

Ar ôl gyrfa a barodd 30 mlynedd mewn gofal cymdeithasol a thai, penderfynodd Bev ymddeol yn 2013, ond mae wedi mynd i'r afael â swyddi llywodraethu yn y trydydd sector a'r sector tai ers hynny. Treuliodd ei blyneddau proffesiynol olaf mewn swyddi strategol yn y gwasanaethau tai a'r gwasanaethau cymdeithasol, yn gwella ac yn datblygu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd, plant ac oedolion agored i niwed. Ymunodd Bev â Bwrdd Linc ym mis Mehefin 2018 ac mae'n Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Llywodraethu Pensiynau, y Pwyllgor Datblygu a'r Pwyllgor Enwebiadau. Yn ogystal â gwasanaethu ar y Bwrdd, mae Bev yn rhedeg busnes bach sy'n gosod tai, ynghyd â mentora oedolion sy'n mynd ati am y tro cyntaf i sefydlu busnes neu sy'n dychwelyd ar ôl seibiant. Mae ei diddordebau mewn perthynas â Bwrdd Linc yn parhau i ganolbwyntio ar wella a datblygu gwasanaethau, yn enwedig gwella opsiynau tai a lleihau digartrefedd ledled de Cymru.



### Mandy Newton

Mae Mandy yn arweinydd blaenllaw o ran sbarduno rhagoriaeth weithredol a thwf busnes yn y Sectorau TG a Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Mae'n arweinydd sydd wedi gweithio ar lefel bwrdd ers mwy nag 20 mlynedd, ac mae'n meddu ar sgiliau rhagorol o ran rheoli rhanddeiliaid ynghyd â'r gallu i feithrin timau dynamig, ac mae ganddi brofiad helaeth mewn newid busnes. Mae Mandy wedi gweithio yn sector y llywodraeth a'r sector preifat, gan arwain a gweithredu rhaglenni digidol a rhaglenni trawsnewid busnes gyda Fujitsu Services Ltd a Grŵp Hyder. Ymunodd Mandy â Bwrdd Linc ym mis Ebrill 2019 fel aelod cyfetholedig, ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Datblygu, y Pwyllgor Tâl a'r Pwyllgor Gofal. Hefyd, Mandy yw Noddwr y Bwrdd ar gyfer Cyfrifoldebau Cymdeithasol Corfforaethol (CSR).



### Gerraint Oakley

Cyfarwyddwr Gweithredol – Twf a Datblygu y Platform Housing Group yw Gerraint, sef cymdeithas dai yn Lloegr a chanddi 47,000 o dai. Mae ei rolau blaenorol diweddar yn cynnwys bod yn Rheolwr Gyfarwyddwr Rhanbarthol yn Keepmoat Homes South West ac yn Rheolwr Gyfarwyddwr ar fusnes adeiladu tai Curo yng Nghaerfaddon. Mae ganddo fwy na 30 mlynedd o brofiad yn y maes rheoli eiddo, ystadau ac asedau, y maes datblygu a'r maes adfywio trefol. Cyn ymuno â Curo, ef oedd Cyfarwyddwr Datblygu Coastal Housing Group a Rheolwr Gyfarwyddwr Pennant Homes. Yn 2008 ymunodd Gerraint â Barratt Developments Plc, lle bu'n gweithio trwy'r DU i gyd yn Is-adrannau Cartrefi Barratt a David Wilson. Cyn ymuno â Barratt, bu'n gweithio i Vodafone am 10 mlynedd, lle'r oedd yn Rheolwr Strategaeth Eiddo Byd-eang. Ymunodd Gerraint â Bwrdd Linc ym mis Ebrill 2019 fel aelod cyfetholedig, ac mae'n Aelod o'r Pwyllgor Datblygu.

## Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)



### Jonathan Pearce

Mae Jonathan yn Gyfrifydd Siartredig ac ef yw Cyfarwyddwr Cyllid Masnachol Warner Surveys, sef busnes arolygu tir a pheirianeg rhyngwladol. Ymhellach, mae Jonathan yn Gymrawd Sefydliad Siartredig y Syrffewyr Peirianeg Sifil. Mae ganddo fwy nag 20 mlynedd o brofiad mewn rheolaeth ariannol gyda'r sector adeiladu. Ymunodd Jonathan â Bwrdd Linc ym mis Mehefin 2016 ac mae'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Llywodraethu Pensiynau. Hefyd, mae Jonathan yn Gadeirydd Tarbed Cyf, is-gwmni Linc.



### Alan Sinclair

Mae Alan wedi ymddeol ar ôl gweithio am 38 mlynedd yn y maes tai cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu'n ymdrin â phob agwedd ar dai, o fod yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau mewn cymdeithas dai yng Nghymru i weithio yn y maes strategaeth tai ar gyfer awdurdod lleol. Mae wedi ymrwymo'n arbennig i dai ar gyfer pobl hyn. Ymunodd Alan â Bwrdd Linc ym mis Mehefin 2018 ac mae'n Aelod o'r Pwyllgor Datblygu, y Pwyllgor Gofal a'r Pwyllgor Enwebiadau.



### Brian Thomas

Mae Brian wedi bod yn un o denantiaid Linc ers mis Chwefror 2009. Ar hyn o bryd mae'n aelod o'r Panel Strategaeth Tenantiaid (y Panel Tenantiaid gynt) a hefyd mae'n mynychu Cyrsiau Craffu pan fo angen. Roedd Brian yn Gadeirydd y Panel Tenantiaid rhwng Hydref 2014 ac Awst 2017. Ymunodd â Bwrdd Linc ym mis Medi 2017 ac mae hefyd yn Aelod o'r Pwyllgor Archwilio. Mae Brian yn edrych ymlaen at fynd i'r afael â'i rôl fel Llysgennad Bwrdd Linc o fis Medi 2020 ymlaen.



### Lynda Williams

Mae Lynda wedi ymddeol ar ôl 40 mlynedd yn gweithio yn y gwasanaeth iechyd. Fel Nyrs Gofrestredig, mae Lynda wedi gweithio fel Clinigydd ac Uwch Reolwr mewn nifer o sectorau Gofal. Treuliodd 15 mlynedd olaf ei gyrfa yn gweithio fel Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yn GIG Cymru. Llywodraethu, safonau gofal a diogelu yw prif feysydd diddordeb Lynda. Ymunodd â Bwrdd Linc ym mis Medi 2018 ac mae'n Gadeirydd y Pwyllgor Tâl, yn Gadeirydd y Pwyllgor Gofal, ac yn Aelod o'r Pwyllgor Archwilio. Hefyd, mae Lynda yn Ymddiriedolwr ar nifer o Fyrddau yn y sector Elusennol.



### Richard Davies

Mae Richard yn gyfrifol am arweinyddiaeth a pherfformiad ein busnes gofal, yn cynnwys ein tri chartref nyrsio a gaiff eu rhedeg yn uniongyrchol gennym a'n hamrywiaeth eang o leoedd Byw'n Annibynnol. Ymunodd Richard â Bwrdd Linc ym mis Gorffennaf 2019, fel aelod cyfetholedig. Richard yw Unigolyn Cyfrifol Linc ar gyfer ein tri chartref gofal.

### Cyn-aelodau'r Bwrdd

Gadawodd Keith Shankland y Bwrdd ar 26 Medi 2019 ar ôl naw mlynedd o wasanaeth.

# Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

## Swyddogion Gweithredol



**Scott Sanders**  
Prif Weithredwr

Mae Scott yn canolbwyntio ar gynllunio busnes strategol, cyfathrebu corfforaethol a llywodraethu. Mae'n arwain ar Strategaeth Busnes Newydd Linc ac mae'n un o Gyfarwyddwyr Tarbed Cyf.



**Campbell Bardo**  
Cyfarwyddwr Gweithredol  
Gwasanaethau  
Corfforaethol

Mae Campbell yn canolbwyntio ar gyllid strategol, gwasanaethau corfforaethol a'i rôl fel Ysgrifennydd y Cwmni. Ef yw'r Dirprwy Brif Weithredwr ac mae'n un o Gyfarwyddwyr Tarbed Cyf.



**Nicola Smith**  
Cyfarwyddwr Gweithredol  
Cartrefi Linc

Mae Nicola yn gyfrifol am bob agwedd ar ein busnes Cartrefi, yn cynnwys ein Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, a hi yw'r Cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid.



**Louise Attwood**  
Cyfarwyddwr  
Gweithredol Eiddo

Louise Attwood a'i thîm sy'n gyfrifol am gyflawni'r strategaeth busnes newydd a thwf o fewn y sefydliad ar draws ein cynhyrchion cymdeithasol a'n cynhyrchion rhent y farchnad, yn ogystal â'n busnes byw'n annibynnol.



**Richard Davies**  
Cyfarwyddwr  
Gweithredol Gofal Linc

Richard sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth a pherfformiad ein busnes gofal, yn cynnwys ein tri chartref gofal a gaiff eu rhedeg yn uniongyrchol gennym a'n hamrywiaeth eang o leoedd Byw'n Annibynnol.

Nid oes gan Swyddogion Gweithredol Linc unrhyw fudd yng nghyfalaf cyfranddaliadau Linc, ac er nad oes ganddynt statws 'Cyfarwyddwyr' cyfreithiol, maent yn gweithredu fel Swyddogion Gweithredol o fewn yr awdurdod a ddirprwyir iddynt gan y Bwrdd.



# Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

## Y Bwrdd a Llywodraethu Corfforaethol

Caiff gweithgareddau Linc eu harolygu gan y Bwrdd, sy'n cyfarfod unwaith bob deufis. Mae pump o Bwyllgorau yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd, ac mae'r rhain yn arolygu meysydd gweithgarwch penodol:

## Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn o leiaf. Amcanion a diben y Pwyllgor Archwilio yw cynorthwyo a chynghori'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau er mwyn sicrhau'r canlynol:

1. Bod y systemau, y mesurau rheoli a'r gweithdrefnau angenrheidiol yn cael eu sefydlu a'u cynnal er mwyn diogelu buddiannau'r holl randdeiliaid yng ngweithgareddau Linc.
2. Bod systemau a gweithdrefnau'n cael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod adnoddau Linc yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn argymhell penodi'r archwilwyr mewnol ac allanol i'r Bwrdd ac yn ystyried yr holl faterion archwilio a llywodraethu a fydd yn deillio o'r archwilwyr mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r asesiad risg archwilio a'r rhaglen archwilio mewnol flynyddol.

## Y Pwyllgor Datblygu

Mae'r Pwyllgor Datblygu yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn o leiaf. Amcanion a diben y Pwyllgor Datblygu yw cynorthwyo a chynghori'r Bwrdd ynghylch datblygiadau newydd er mwyn sicrhau'r canlynol:

1. Bod hyfywedd cynigion datblygu newydd, ynghyd â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn, yn cyd-fynd â chynllun busnes cymeradwy'r Bwrdd.
2. Bod datblygiadau newydd yn cyd-fynd â rhagdybiaethau cymeradwy'r Bwrdd.
3. Bod proffil risg cronol y rhaglen ddatblygu'n parhau i gyd-fynd â pharamedrau cymeradwy'r Bwrdd.
4. Bod y Bwrdd yn cael gwybod am amrywiannau sylweddol yn y dichonoldeb.

## Y Pwyllgor Llywodraethu Pensiynau

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Pensiynau yn cyfarfod unwaith y flwyddyn o leiaf. Amcanion a diben y Pwyllgor Llywodraethu Pensiynau yw cynorthwyo a chynghori'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswydd er mwyn:

1. Sicrhau bod y systemau a'r gweithdrefnau angenrheidiol yn cael eu sefydlu a'u cynnal er mwyn diogelu buddiannau'r rhai sy'n aelodau o'r cynllun pensiwn Aegon.
2. Hyrwyddo defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau Linc ym mhob mater yn ymwneud â'r cynllun pensiwn Aegon.
3. Sicrhau bod y systemau a'r gweithdrefnau angenrheidiol yn cael eu sefydlu a'u cynnal er mwyn diogelu buddiannau Cyflogeion Linc a gofrestrir yn awtomatig ar y cynllun pensiwn NEST.

## Y Pwyllgor Tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cyfarfod unwaith y flwyddyn o leiaf. Amcanion a diben y Pwyllgor Tâl yw cynorthwyo a chynghori'r Bwrdd ynghylch pob mater yn ymwneud â thâl a thelerau ac amodau gwasanaeth y canlynol:

1. Y Cyfarwyddwyr Anweithredol
2. Y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r Tîm Gweithredol.
3. Holl gyflogeion eraill Linc.

# Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

## Y Pwyllgor Enwebiadau

Amcan a diben y Pwyllgor Enwebiadau yw cynorthwyo a chynghori'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau Llywodraethu, a hynny o fewn y Rheolau, trwy sicrhau bod y Bwrdd yn cynnwys unigolion sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni cyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd, fel y'u nodir yn y Rheolau a'r Gofynion Rheoliadol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd

Y bwrdd sy'n gyfrifol am baratoi'r adroddiad a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae deddfwriaeth Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r bwrdd baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Dan y gyfraith honno, mae'r bwrdd wedi penderfynu paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a chyfreithiau perthnasol), yn cynnwys FRS 102 'Y Safon Adrodd Ariannol' sy'n berthnasol o fewn y DU a Gweriniaeth Iwerddon. Yn ôl deddfwriaeth Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol, ni ddylai'r bwrdd gymeradwyo'r datganiadau oni bai ei fod yn fodlon eu bod yn cynnig darlun gwir a theg o sefyllfa a gwarged neu ddiffyg y gymdeithas a'r grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r bwrdd wneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith mewn modd cyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- nodi a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu perthnasol y DU a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu gan Ddarparwyr Tai Cofrestredig 2018, yn amodol ar unrhyw amrywiadau materol a ddatgelir ac a esbonnir yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y gymdeithas yn parhau mewn busnes.

Y bwrdd sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol a fydd yn datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol y grŵp a'r gymdeithas, ac a fydd yn galluogi'r bwrdd i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol (Cymru) 2015 ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Y bwrdd sy'n gyfrifol hefyd am ddiogelu asedau'r gymdeithas, ac o'r herwydd y bwrdd sy'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol er mwyn atal a chanfod twyll neu afreoleidd-dra o fath arall.

Y bwrdd sy'n gyfrifol am gynnal a sicrhau cywirdeb yr wybodaeth gorfforaethol a'r wybodaeth ariannol a gynhwysir ar wefan y gymdeithas. Efallai y bydd deddfwriaethau yn y DU mewn perthynas â llywodraethu'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol yn wahanol i deddfwriaethau mewn awdurdodaethau eraill.

## Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Mae holl Aelodau'r Bwrdd, ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad hwn, wedi cadarnhau:

- Nad oes yna unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd Linc yn ymwybodol ohoni, cyn belled ag y gŵyr Aelodau'r Bwrdd;
- Bod Aelodau'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd fel Aelodau Bwrdd er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau bod archwilydd Linc yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

# Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

## Rheolaeth Ariannol Fewnol

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig adrodd am fesurau rheolaeth fewnol (Cylchlythyr Llywodraeth Cymru RSL 02/10).

Mae'r Bwrdd yn cydnabod ei gyfrifoldeb cyffredinol dros sefydlu a chynnal system rheolaeth ariannol fewnol a thros adolygu effeithiolrwydd y system honno. Bwriad y system rheolaeth ariannol fewnol yw rheoli, yn hytrach na dileu, y risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, a rhoi sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, mewn perthynas â cholled neu gam-ddatgan materol.

Mae'r Bwrdd wedi adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth ariannol fewnol Linc ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 3 Medi 2020, sef dyddiad yr adroddiad hwn.

Mae'r mecanweithiau canlynol ar waith, a'u bwriad yw sicrhau rheolaeth fewnol effeithiol:

- Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol sy'n nodi'r awdurdod y mae'r Bwrdd Rheoli yn ei ddirprwyo i'r Swyddogion.
- Systemau gwybodaeth reoli a chyfrifyddu lle'r adroddir bob mis am ganlyniadau ariannol a lle caiff dangosyddion perfformiad eraill eu cymharu â rhagolygon a chyllidebau.
- Cynlluniau strategol, rhagolygon a chynlluniau datblygu pum mlynedd treigl.
- Model busnes sy'n rhagweld sefyllfa ariannol Linc dros y 30 mlynedd nesaf.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio, yr archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol yn monitro'r system reoli.
- Sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau ffurfiol ar waith, yn cynnwys mynd ati i ddogfennu systemau allweddol.
- Mae gan Linc broses ar waith ar gyfer pennu, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol mae'n eu hwynebu. Caiff y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a ategir gan Gofrestrau Risg adrannau unigol, ei hadolygu ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, gan yr Uwch Dîm Arwain a chan y Bwrdd bob chwarter. Mae'r broses hon wedi bod ar waith dros yr holl gyfnod sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol hyn, hyd at ac yn cynnwys 3 Medi 2020.
- Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r syniad o gyflwyno Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi cydweddu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac wedi'i ymgorffori yn y Gofrestr honno.
- Mae gan Linc bolisiau a gweithdrefnau i ddiogelu ei asedau ac i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra o fath arall. Y Bwrdd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gymryd y fath gamau ag y gall eu cymryd yn rhesymol er mwyn atal a chanfod twyll ac adennill asedau.

## Adolygiad Llywodraethu

Mae Bwrdd Linc yn cyfarfod saith gwaith y flwyddyn. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am y strategaeth a'r fframwaith polisi, ac mae'n dirprwyo i'r Prif Weithredwr ac aelodau'r Tîm Gweithredol y gwaith beunyddiol o reoli a gweithredu'r strategaeth.

Yn ystod 2019/20 fe wnaethom barhau i adeiladu ar ein fframwaith llywodraethu er mwyn sicrhau bod Linc yn parhau i fod yn ddynamig, yn benodol ei ffocws, ac yn gymwys i wynebu heriau'r dyfodol.

- Cafodd y Pwyllgor Gofal ei sefydlu er mwyn cynnig cyfleoedd craffu a sicrwydd ychwanegol i Linc mewn perthynas â'n cartrefi nyrsio.
- Cafodd tîm llywodraethu mewnol newydd ei sefydlu i gynorthwyo'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.
- Cyflwynwyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, sy'n cynnwys sicrwydd a risgiau busnes allweddol.
- Sefydlwyd dyddiadur llywodraethu ar-lein newydd er mwyn tynnu sylw at ddyddiadau allweddol yn ymwneud â datganiadau rheoleiddiol a gwybodaeth berthnasol am gydymffurfio â threfniadau llywodraethu.
- Cafodd y fframwaith hunanwerthuso ei wella, a bellach cynhelir y broses hunanwerthuso unwaith y flwyddyn yn hytrach na bob chwe mis.



## **Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)**

- Cafodd cyfansoddiad y Bwrdd ei adolygu. Er bod y Bwrdd yn parhau i gynnwys y cymysgedd priodol o sgiliau a phrofiad er mwyn ei alluogi i arwain Linc a chyflawni ei strategaeth, daethpwyd i'r casgliad y bydd cam nesaf y gwaith recriwtio yn canolbwyntio ar y sgiliau ychwanegol y gall fod eu hangen er mwyn paratoi Linc ar gyfer y dyfodol.
- Fe wnaethom weithio mewn partneriaeth gyda Chwarae Teg ac ymuno â'r rhaglen 'Step to Non-Exec' er mwyn gwella amrywiaeth o fewn y Bwrdd. Mae'r rhaglen hon yn anelu at annog menywod ifanc i fynd i'r afael â rolau Cyfarwyddwyr Anweithredol.

### **Porth y Bwrdd**

Mae porth y Bwrdd yn rhan bwysig o'r dasg o sicrhau llywodraethu cryf trwy hunanwasanaeth Cyfarwyddwyr Anweithredol. Mae'r porth yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- Adroddiadau misol am gyllid, lechyd a Diogelwch a Llywodraethu Cartrefi Gofal.
- Dogfennau cyfansoddiadol, yn cynnwys Rheolau Linc, Memorandwm ac Erthyglau is-gwmni Linc (Tarbed Cyfyngedig), Cyfrifon Statudol, papurau a chofnodion y Bwrdd/Pwyllgorau.
- Dogfennau rheoleiddiol, yn cynnwys Dyfarniadau, Safonau Perfformiad, Datganiad Cydymffurfio, Hunanwerthuso.
- Strategaethau busnes, yn cynnwys y Cynllun Busnes, Rheoli Asedau a'r Trysorlys.
- Calendr o ddigwyddiadau cymunedol.
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus.
- Newyddion am y sector.

### **Cydymffurfio â Chod Llywodraethu Diwygiedig CCC (Cartrefi Cymunedol Cymru)**

Mae Cod Llywodraethu CCC yn pennu'r egwyddorion a'r arferion a argymhellir ar gyfer sicrhau llywodraethu da. Ystyrir y cod fel dull o sicrhau gwelliannau parhaus er mwyn cyrraedd y safonau llywodraethu uchaf. Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn mynd ati i ystyried a myfyrio ynghylch y modd mae Linc yn cydymffurfio â'r saith egwyddor a nodir yn y cod.

Cytunodd y Bwrdd fod Linc wedi dangos ei fod yn cydymffurfio â'r cod, a'i fod wedi dangos ystod o welliannau o gymharu â'i sefyllfa yn 2018/19. Mae'r Bwrdd yn parhau i ystyried sut gallwn ddenu talent amrywiol pan gynhelir ymgyrchoedd recriwtio'r Bwrdd yn y dyfodol.

### **Aelodaeth y Bwrdd**

Nod Linc yw sicrhau aelodaeth amrywiol ar gyfer y Bwrdd, lle cynrychiolir yr ardaloedd y mae Linc yn darparu tai, gwasanaethau a chynlluniau iechyd a gofal cymdeithasol ynddynt, ynghyd â recriwtio aelodau i wasanaethu ar ei Fwrdd Rheoli. Bydd aelodaeth y Bwrdd ar agor:

- I bawb sy'n bodloni'r gofynion ymaelodi, fel y'u nodir yn Rheolau Linc.
- I bawb sy'n mynd ati mewn modd agored a dilys i gefnogi'r egwyddor o gyflawni blaenoriaethau a chynlluniau strategol Linc o ran tai, iechyd a gofal cymdeithasol.
- I bawb nad oes ganddynt fuddiannau busnes yn Linc.

Mae'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd yn elwa ar gael aelodau – y mae pob un ohonynt yn deillio o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus – sy'n meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad canlynol:

- Llywodraethu, busnes a rheoli strategol.
- Profiad masnachol.
- Rheoli'r trysorlys, rheoli cyllid a risgiau.
- Mentrau cymdeithasol a datblygu cymunedol.
- Y cyfryngau, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata.

## Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

- Trawsnewid busnes mewn oes ddigidol.
- Adnoddau dynol, hyfforddi a datblygu.
- Rheoli asedau, y diwydiant adeiladu yn cynnwys gwasanaethau proffesiynol cysylltiedig, datblygu eiddo, newid hinsawdd a datblygiadau carbon niwtral.
- Y gyfraith.
- Tai cymdeithasol a fforddiadwy, gweithgareddau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Gwasanaethau i Gwsmeriaid.
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Technoleg a Roboteg.


Caiff y Bwrdd ei gynorthwyo a'i gynghori gan Dîm Gweithredol dan arweiniad y Prif Weithredwr. Mae'r Tîm yn cynnwys pobl a chanddynt wybodaeth a phrofiad helaeth am amgylchedd strategol a gofynion gweithredol Linc.

Caiff Cyfarwyddwyr Anweithredol presennol eu hannog i roi rhybudd o hyd at 6 mis i'r Bwrdd ynglŷn â'u bwriad i adael y Bwrdd (ac eithrio pan fydd Aelod wedi cwblhau'r cyfnod hwyaf o 9 mlynedd yn y swydd). Mae hyn yn hwyluso'r gwaith o gynllunio ar gyfer olyniaeth ac yn lliniaru newidiadau mawr a all ddigwydd mewn unrhyw gyfnod arbennig.

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn mynd ati bob blwyddyn fan leiaf i adolygu aelodaeth y Bwrdd, gan roi ystyriaeth i gynllunio ar gyfer olyniaeth a phennu bylchau mewn sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Mae'r Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd am ei ganfyddiadau.

### Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru, y corff statudol sy'n rheoleiddio safonau gofal mewn cartrefi nyrsio yng Nghymru, yn ei gwneud hi'n ofynnol i holl ddarparwyr cartrefi nyrsio yng Nghymru benodi Unigolyn Cyfrifol. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol fod yn unigolyn sydd naill ai â budd ariannol yn y busnes neu'n rhywun sydd ag awdurdod i gyfarwyddo'r gofal a ddarperir. Er mwyn bodloni'r gofyn hwn, aeth Linc ati i benodi Richard Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Linc, yn aelod cyfetholedig o'r Bwrdd. Cafodd penodiad Richard fel Unigolyn Cyfrifol Linc ei gymeradwyo gan Arolygiaeth Gofal Cymru.



# Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

## Cynnwys Tenantiaid a Phreswylwyr ac Ymgysylltu â Nhw

Mae gan denantiaid rôl bwysig i'w chwarae wrth siapio a chraffu ar wasanaethau Linc ac wrth ddatblygu cymunedau sy'n fwy hyfyw yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae lansio strategaeth newydd ar gyfer Ymgysylltu â Thenantiaid a Chymunedau, gan gynnwys fframwaith newydd ar gyfer casglu mwy o wybodaeth ac ymgysylltu â chymunedau, wedi bod yn ganolog i'n gwaith wrth symud ymlaen.

Mae gwranddo ar ein Tenantiaid a'n Preswylwyr, gweithredu ar eu sail a dysgu yn eu sgil wedi bod yn hollbwysig. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Lansio partneriaeth newydd gyda'r Brifysgol Agored a Grŵp Cymunedol Aber-big, sef partneriaeth a ariannwyd gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI). Cafodd ei sefydlu er mwyn cyrraedd cymuned a oedd, yn hanesyddol, yn dioddef oherwydd dirywiad cymdeithasol ac economaidd. Mae'r fenter hon sy'n seiliedig ar le wedi llwyddo i ddenu tenantiaid i gymryd rhan mewn Cyrsiau Rhagflas y Brifysgol Agored. Bydd yn creu straeon digidol a gaiff eu recordio gan bobl ifanc ond eu hadrodd gan breswylwyr sy'n byw yn ein cynllun gofal ychwanegol yn Llys Glyncoed, Glynebwy, a bydd yn golygu cyd-gynnal arddangosfa genedlaethol yn arddangos llwyddiannau'r gymuned.
- Cafodd dau o Gyrsiau Craffu eu trefnu gyda'r tenantiaid i adolygu ein dulliau mewn perthynas ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Lleihau Achosion o Droï Allan a safonau Cynllunio cartrefi newydd. Fe wnaeth y cyrsiau hyn ein galluogi i gasglu gwybodaeth, ond hefyd buont yn brofiad gwych i bob un ohonom. Cyflwynwyd cyfres o argymhellion i'n Bwrdd, ac aeth y Bwrdd ati i'w cymeradwyo. Hefyd, llwyddasom i ennill 'Gwobr Amrywiaeth Genedlaethol' y Sefydliad Tai Siartredig am ein gwaith.
- Fe esgorodd ein prosiect 'Loving the Lysaght', a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ar ganlyniadau gwych. Ymgysylltu ag ysgolion, blychau cofio sain arloesol, gwaith ymchwil i glywed lleisiau'r gymuned BAME (pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig), cymorth i fwy na 12 o wirfoddolwyr, a chreu Sioe Gerdd gydag Operasonic. Mae mwy na 30 o straeon digidol yn cofnodi lleisiau'r preswylwyr a byddant yn cael eu defnyddio fel rhan o linell amser ddigidol.
- Gyda'r tenantiaid aethom ati i sefydlu Grŵp Strategaeth newydd ar gyfer Tenantiaid a Phreswylwyr a fydd yn gweithredu gyda chylch gorchwyl newydd a thrwy gyfrwng plattform digidol, er mwyn sicrhau y gellir cynnal gwaith craffu effeithiol a sicrhau bod lleisiau'r tenantiaid yn cael eu clywed ar faterion strategol.
- Aethpwyd ati i adfywio neu sefydlu nifer o grwpiau cymunedol hen a newydd er mwyn gwella llesiant y gymuned. Mae gan y grwpiau hyn gyfansoddiad annibynnol a gallant godi eu harian eu hunain i gyflawni eu huchelgeisiau. Eisoës, mae'r grwpiau hyn yn esgor ar ganlyniadau gwych, yn cynnwys cael gafael ar adnoddau newydd a chydweithio i sicrhau bod dyfodol gwell yn wynebu pobl iau a phobl hŷn.

**Mae cyd-gynhyrchu a chydberthynas** wedi bod yn allweddol, a phan ddaeth y pandemig Covid 19 fe wnaeth ein perthnasoedd gwych ein galluogi i weithredu'n ddi-oed i gyflwyno gwasanaethau llesiant. Gan weithio ar draws timau, gyda sefydliadau lleol a grwpiau cymunedol, fe wnaethom gefnogi ystod o fentrau, yn cynnwys prosiectau parseli bwyd a roddwyd ar waith er budd y gymuned a chan y gymuned; fe wnaethom gyflymu grantiau cymunedol i ganolbwyntio ar leihau unigrwydd a theimladau ynysig; ac aethom ati i gael mwy na 2,000 o breswylwyr i gymryd rhan yn nathliadau'r Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (Diwrnod VE), a hynny mewn modd diogel a thrwy gadw pellter cymdeithasol. Hefyd, fe wnaethom lunio gwybodaeth allweddol, gan weithio gyda thenantiaid a phartneriaid i liniaru caledi ariannol. Yn olaf, yn 2019/20 fe wnaethom ffarwelio â'n Panel Tenantiaid, a weithiodd yn llwyddiannus gyda ni am fwy na 7 mlynedd. Hoffem ddiolch o galon i aelodau'r Panel am eu gwaith gwych ac am ein cynorthwyo i fwrw ymlaen â'n trefniadau newydd.

### Gwerth Cymdeithasol

Yng Nghofrestr Gwerth am Arian Linc ar gyfer 2019-2020, elwodd ein tenantiaid a'n preswylwyr ar brosiectau a oedd yn werth mwy na £232,000 – prosiectau a ariannwyd gennym ni a'n partneriaid er mwyn gweithio'n uniongyrchol gyda nhw.

# Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

## Ymwneud a Chyfranogiad Cyflogeion

Rydym wastad wedi bod yn eithriadol o falch o'n cyflogeion a'r gwaith gwych a wnânt er budd ein tenantiaid, ein preswylwyr, a'r naill a'r llall. Cyflwynwn ein gwasanaethau gyda phroffesiynoldeb, caredigrwydd a gofal, ac mae hyn bellach yn arwyddnod o staff Linc ac mae'n allweddol i'n llwyddiant ariannol. Ar gychwyn 2020, aethom ati i groesawu'r degawd newydd trwy ailddatgan ein gwerthoedd – Uchelgeisiol, Llawn Parch ac Arloesol – a chyda'r bwriad o greu'r Amgylchedd iawn i Bobl Ffynnu. Erbyn mis Chwefror, roeddem yn sylweddoli bod 2020 yn mynd i fod yn flwyddyn wahanol iawn i bob blwyddyn arall, a chyda'n gilydd fe wnaeth pob un ohonom wynebu'r heriau lygad yn llygad ar ffurf OneLinc.

### Gwirfoddoli

Yn gynnar iawn ym mhandemig y Coronafeirws, aethom ati i flaenoriaethu ein gwasanaethau a chanolbwyntio ar ofalu am ein preswylwyr a'n tenantiaid mwyaf agored i niwed, gan ofalu am ein cydweithwyr, diogelu ein ffrydiau incwm a rheoli costau. Wrth i'r feirws ledaenu trwy'r gymuned, bu'n rhaid i ni sicrhau bod niferoedd diogel o staff yn gweithio yn ein cartrefi gofal a'n cynlluniau byw'n annibynnol, wrth i staff y lleoliadau hyn fynd yn sâl neu fethu â mynychu eu gwaith. Fe wnaethom ofyn i staff ein Pencadlys a fyddai modd iddynt hwy wirfoddoli er mwyn cynnig help hollbwysig. Roedd angen yr help hwn mewn rhan o'r busnes a oedd yn anghyfarwydd iddynt, ac roedd y gwaith braidd yn frwydus. Cawsom ymateb gwych, a bu staff o bob rhan o Linc yn gweithio'n ddiflino, ddydd a nos, i gynnal y safonau gofal uchaf, 24 awr y dydd drwy gydol cyfnod yr argyfwng. Bu'r adborth gan y gwirfoddolwyr yn gadarnhaol iawn. Byddwn yn ystyried ffyrdd o hyrwyddo mwy ar gyfleoedd gwirfoddoli yn y dyfodol.

### Cyfathrebu

Mae cyfathrebu mewn modd effeithiol yn hollbwysig wrth ysgogi cyfraniad ac ymgysylltiad cyflogeion, yn ogystal ag wrth gyflwyno gwybodaeth allweddol. Yn ystod y sefyllfa COVID-19, roedd sicrhau platfformau a phrosesau cyfathrebu da yn bwysicach nag erioed i ni. Wrth i'r canllawiau a'r deddfwriaeth newid – a hynny heb ddim, neu fawr ddim, rhybudd o dro i dro – aethom ati i ddatblygu nifer o ddulliau cyfathrebu er mwyn rhannu gwybodaeth hollbwysig a gweithio trwy'r newidiadau yn ein polisiau a'n harferion gweithio. Dim ond trwy ddefnyddio dull cyfathrebu cyfredol, ymatebol a hyblyg y bu modd i ni roi gwybod i bawb beth oedd yn digwydd ynghyd â choladu ac adrodd am wybodaeth hollbwysig.

### Gweithio Ystwyth

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran dod yn weithlu mwy ystwyth, nid yn unig o safbwynt lleoliad ond hefyd o safbwynt symleiddio prosesau ac ysgogi atebion technegol i wella effeithiolrwydd. Bron dros nos, bu'n ofynnol i fwyafrif llethol ein staff swyddfa weithio gartref. Ar adegau, rhaid oedd gwneud penderfyniadau'n gyflym, ac fe wnaeth ein systemau technegol ein galluogi i wneud hyn gyda'r bobl iawn, gyda'r wybodaeth a'r data iawn, a chyda'r llywodraethu priodol mewn lle.

### Iechyd a Diogelwch a Llesiant

Roedd ein Strategaeth Llesiant wedi datblygu i raddau helaeth ac roedd camau allweddol ar waith pan fu'n rhaid i ni ailystyried ein dull oherwydd COVID-19. Parhaodd ein pedair colofn Llesiant – Ariannol, Corfforol, Emosiynol ac Amgylcheddol/Cymdeithasol – i fod yn ffocws allweddol. Yn ystod y cyfnod anodd hwn, ochr yn ochr â mesurau iechyd a diogelwch deddfwriaethol, aeth ein Swyddog Llesiant ati i gynnig llawer o gymorth i'n gweithwyr allweddol a oedd yn hunanynysu neu'n sâl, gan gynnig cyngor emosiynol ac ymarferol iddynt er mwyn hybu eu Llesiant a'u cynorthwyo i ddychwelyd i'r gwaith. Hefyd, fe wnaethom gyflwyno arolwg Llesiant iechyd meddwl er mwyn gweld pwy oedd yn cael trafferthion emosiynol oherwydd effeithiau'r cyfyngiadau ac er mwyn sicrhau y byddai modd i ni gynnig y cymorth mwyaf priodol i'n cydweithwyr pan oeddynt ei angen fwyaf.



# Adroddiad y Bwrdd ac Adroddiad Llywodraethu Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (parhad)

## Tâl Cyfarwyddwyr Anweithredol ac Uwch Staff

Mae Linc yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad i bennu lefelau tâl Cyfarwyddwyr Anweithredol ac uwch staff. Caiff y lefelau hyn eu pennu ar bwynt canol y farchnad. Mae hyn yn cynnwys data meincnodi blynyddol Cartrefi Cymunedol Cymru mewn perthynas â thâl, ynghyd â gwybodaeth gymharol y sector tai. Mae'r Bwrdd yn cytuno ar becynnau tâl uwch staff yn flynyddol, a chaiff tâl Cyfarwyddwyr Anweithredol ei bennu yn unol â chymaryddion yn y sector tai.

## Cydnabod Cyflogeion

Dymuna'r Bwrdd ddiolch i holl gyflogeion Linc am eu hymrwymiad i'n tenantiaid, ein preswylwyr a'n rhanddeiliaid. Yn ystod y chwe mis diwethaf, a ninnau wedi wynebu heriau na welwyd mo'u tebyg erioed o'r blaen oherwydd y pandemig, mae ein cyflogeion wedi ymateb mewn ffordd sy'n arwydd o'u hymrwymiad, eu hempathi, eu caredigrwydd a'u parch tuag y rhai rydym yn darparu cartrefi a gofal ar eu cyfer. Yn arbennig, mae ein nyrsys, ein gofalwyr a'n staff domestig yn ein cartrefi gofal, ein cynlluniau gofal ychwanegol a'n cynlluniau gwarchod, yn haeddu gair arbennig o ganmoliaeth ar sail yr ymrwymiad a ddangoswyd ac a ddangosir o hyd ganddynt yn y dyddiau dyrys hyn. Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi popeth a wnewch er budd y Gymdeithas. Diolch.

## Dyfarniad Rheoleiddio

Cyhoeddwyd y Dyfarniad Rheoleiddio olaf gan Lywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr 2019. Cafodd Linc y dyfarniad canlynol:

Rhagfyr 2019


Llywodraethu a Chyflawni Gwasanaethau – Hyfywedd Ariannol – Safonol

Croesawodd y Bwrdd y dyfarniad hwn, gan nodi mai 'Safonol' yw'r categori uchaf y gall Llywodraeth Cymru ei ddyfarnu.

## Archwilwyr

Bydd cynnig i ailbenodi Grant Thornton UK LLP fel archwilwyr ar gyfer Linc yn cael ei roi gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Trwy orchymyn y Bwrdd



**Scott Sanders**  
Prif Weithredwr

# Adolygiad Ariannol ac Adolygiad Perfformiad Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Adolygiad Ariannol

I grynhoi, ystyrir bod canlyniadau ariannol y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 yn foddhaol. Roedd y gwarged ar gyfer y flwyddyn yn £2.5 miliwn o'i gymharu â'r gwarged o £2.09 miliwn y cyllidebwyd ar ei gyfer. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau cyllid bob mis, ac mae'r rhain yn nodi unrhyw dueddiadau wrth iddynt ddod i'r amlwg. Caiff unrhyw warged ei gadw gan y Gymdeithas yn unol â'r Rheolau ac ni chaiff ei ddsbarthu i'r Cyfranddalwyr. Dyma'r amrywiannau sylweddol yn ystod y flwyddyn o gymharu â'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer:

1. Wrth drosglwyddo ymgymeriadau Cymdeithas Tai Baneswell Cyf i Linc heb unrhyw gost ynghlwm wrtho, cafwyd enillion o £2.36 miliwn ar y dyddiad y trosglwyddwyd asedau net Baneswell.
2. Yn dilyn yr adolygiad amhariad, cafodd amhariad o £1.18 miliwn mewn perthynas â thir mae'r Gymdeithas yn bwriadu ei werthu yn 2020/21, ac amhariad o £0.3 miliwn mewn perthynas ag eiddo y bwriedir ei ailddatblygu yn y dyfodol, ei gydnabod.
3. Trosiant ychwanegol o £0.5 miliwn yn sgil y lefelau ffioedd uwch na'r gyllideb a gyflawnwyd yng Nghartrefi Nyrsio Linc ac incwm grant ychwanegol yn ymwneud â gwaith addasu yn eiddo tenant Linc.
4. Gwariant ychwanegol o £0.8 miliwn ar waith cynnal a chadw/rheoli asedau. Rhoddwyd gwybod yn llawn i'r Bwrdd am y gwariant ychwanegol hwn drwy gydol y flwyddyn ac aeth y Bwrdd ati i gymeradwyo'r costau ychwanegol. Roedd y costau ychwanegol yn cynnwys gwaith atal tân, gwaith atgyweirio'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, gwaith ymatebol a chylchol, ac archwiliadau diogelwch trydanol.

## Dyfarniadau Pwysig gan Reolwyr a Ffynonellau Allweddol mewn perthynas ag Amcangyfrif Ansicrwydd

Mae'r dasg o baratoi'r datganiadau ariannol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r rheolwyr lunio dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y modd y cymhwysir polisiau a symiau yr adroddwyd arnynt mewn perthynas ag asedau a rhwymedigaethau, incwm a threuliau. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar wariant hanesyddol a ffactorau amrywiol eraill y credir eu bod yn rhesymol dan yr amgylchiadau, a bydd y canlyniadau'n sail i'r broses o lunio dyfarniadau ynghylch 'gwerthoedd cario ymlaen' asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg iawn ar sail ffynonellau eraill. Efallai y bydd y canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Caiff amcangyfrifon a rhagdybiaethau sylfaenol eu hadolygu'n barhaus. Caiff diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod o fewn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnodau perthnasol yn y dyfodol.

## Dyfarniadau Pwysig gan Reolwyr

Isod gwelir dyfarniadau gan reolwyr mewn perthynas â chymhwyso'r polisiau cyfrifyddu hynny a gaiff yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol. Wrth lunio'r dyfarniadau hyn, mae'r rheolwyr wedi ystyried y meini prawf manwl a nodir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP).

### Gwarged gweithredu

Rhaid i Linc asesu'r eitemau hynny a gaiff eu hystyried o fewn y gwarged gweithredu. Yn dilyn yr asesiad hwn, ystyrir y dylid cynnal y canlynol yng nghwrs arferol y gweithgarwch gweithredu ac y dylid eu cynnwys gyda'r gwarged gweithredu:

- Yr enillion ar drosglwyddo ymgymeriadau Cymdeithas Tai Baneswell Cyf.
- Y newid yng ngwerth yr eiddo buddsoddi (Nodyn f).
- Amhariad eiddo tai.

### Amhariad Eiddo Tai Cymdeithasol

Rhaid i Linc asesu a oes dangosydd amhariad i'w gael mewn perthynas ag unrhyw eiddo sy'n perthyn iddo.

# Adolygiad Ariannol ac Adolygiad Perfformiad Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Fel rhan o'r asesiad, pennodd y rheolwyr eiddo sy'n esgor ar golledion cynyddol gan ei fod yn wag, eiddo y mae ei ddefnydd wedi newid, eiddo y bydd newidiadau polisi'n effeithio arno, neu eiddo y penderfynwyd cael gwared ag ef. Rhoddwyd ystyriaeth ychwanegol i effaith ehangach COVID-19 ar 'werth cario ymlaen' eiddo sydd mewn rheolaeth ac eiddo sydd wrthi'n cael ei adeiladu. Ystyrir bod y ffactorau hyn yn arwydd o amhariad.

## Pennu Dosbarth Eiddo

Rhaid i Linc asesu sut i ddsbarthu eiddo, a pha un a gaiff ei ystyried fel 'Eiddo, Offer a Chyfarpar' neu fel 'Eiddo Buddsoddi'.

## Offerynnau Ariannol

Rhaid i Linc asesu sut i ddsbarthu ei bortffolio benthyciadau rhwng Offerynnau Ariannol Sylfaenol ac Offerynnau Ariannol Eraill/Nad Ydynt yn Sylfaenol.

## Amcangyfrif Ansicrwydd

Mae Linc yn llunio amcangyfrifon a rhagdybiaethau'n ymwneud â'r dyfodol. Yn ôl eu diffiniad, pur anaml y bydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu dilynol yn cyfateb i'r canlyniadau gwirioneddol perthynol. Nodir isod yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau lle ceir risg fawr y gallant arwain at addasiad materol yn symiau 'cario ymlaen' asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

### Oes ddefnyddiol eiddo, offer a chyfarpar (asedau sefydlog)

Swyddfeydd Rhydd-ddaliadol	25 mlynedd
Gwelliannau i Swyddfeydd	5 mlynedd
Dodrefn a Chyfarpar Swyddfa	3 i 10 mlynedd
Cyfarpar Cyfrifiadurol	4 i 5 mlynedd
Cerbydau Modur	4 mlynedd

### Prif gydrannau eiddo tai a'u hoes ddefnyddiol

	Eiddo Tai	Eiddo Gofal
Strwythur	150 mlynedd	50 mlynedd
Toeau	75 mlynedd	50 mlynedd
Ffenestri a drysau	35 mlynedd	35 mlynedd
Ystafelloedd ymolchi	30 mlynedd	30 mlynedd
Boeleri a systemau gwresogi	20 mlynedd	20 mlynedd
Ceginau	15 mlynedd	15 ac 20 mlynedd
Lifftiau	15 mlynedd	15 mlynedd

# Adolygiad Ariannol ac Adolygiad Perfformiad Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Mesur Gwerth Teg

Mae'r rheolwyr yn defnyddio technegau priso i benderfynu ar werth teg asedau. Mae hyn yn golygu datblygu amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n gyson â sut byddai cyfranogwyr y farchnad yn priso'r offeryn. Cyn belled ag y bo modd, mae'r rheolwyr yn seilio'u rhagdybiaethau ar ddata arsylladwy, ond nid yw'r data yma ar gael bob amser. Mewn achosion o'r fath, mae'r rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael. Gall gwerthoedd teg a amcangyfrifir fod yn wahanol i'r broses wirioneddol y byddai'n bosibl ei chyflawni mewn trafodyn hyd braich ar y dyddiad adrodd.

## Darpariaethau

Caiff darpariaeth ei gwneud ar gyfer dyledion drwg. Mae'r ddarpariaeth hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r rheolwyr lunio'r amcangyfrif gorau o'r costau a ysgwyddir yn seiliedig ar ofynion deddfwriaethol a chontractiol a gallu Linc i gasglu rhenti a thaliadau gwasanaeth pan fyddant yn ddyledus.

## Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr

	2020 £000	2019 £000
Trosiant	40,944	38,278
Gwariant gweithredu	(35,432)	(31,938)
Enillion ar waredu eiddo, offer a chyfarpar	2	316
Enillion ar drosglwyddo ymgymeriadau	2,363	0
Incwm Arall	30	455
<b>Gwarged Gweithredu</b>	<b>7,907</b>	<b>7,111</b>
Llog derbyniadwy	261	135
Costau cyllido a llog	(5,705)	(4,395)
<b>Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn</b>	<b>2,463</b>	<b>2,851</b>

## Trosiant

Gwelwyd cynnydd o £2.6 miliwn (7.00%) yn y trosiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 – o £38.3 miliwn i £40.9 miliwn. Deilliodd y cynnydd hwn o bedair ffynhonnell:

- Y cynnydd mewn rhenti yn sgil gosod tai cymdeithasol o 1 Ebrill 2019. Aethom ati i gyflwyno cynnydd o 2.4% yn ein rhenti, sef yr uchafswm a ganiateir dan bolisi rhenti Llywodraeth Cymru.
- Daeth unedau ychwanegol i reolaeth yn sgil gwaith datblygu. Yn ystod y flwyddyn, daeth 140 yn ychwaneg o gartrefi tai cymdeithasol i reolaeth.
- Trosglwyddo ymgymeriadau Cymdeithas Tai Baneswell Cyfyngedig ar 4 Hydref 2019. Caiff yr incwm rhenti mewn perthynas â'r 70 eiddo a drosglwyddwyd ers y dyddiad hwn ei adlewyrchu yn y Trosiant.
- Mae'r incwm tâl gwasanaeth wedi cynyddu £0.676 miliwn (17.8%) gan fod dau o gynlluniau gofal ychwanegol newydd wedi dod i reolaeth, un ar ddiwedd 2018/19 a'r llall ar ddechrau 2019/20. Ymhellach, mae'r cynnydd hwn mewn incwm tâl gwasanaeth wedi cyfrannu at leihad yn y gorswm gweithredu.



# Adolygiad Ariannol ac Adolygiad Perfformiad Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Gwariant Gweithredu

Gwelwyd cynnydd o £3.5 miliwn (10.9%) yn y costau gweithredu net, sy'n gyfanswm o £35.4 miliwn. Mae'r eitemau a ganlyn yn egluro'r cynnydd:

- Amhariad o £1.18 miliwn mewn perthynas â thir mae'r Gymdeithas yn bwriadu ei werthu yn 2020/21, ac amhariad o £0.3 miliwn mewn perthynas ag eiddo y bwriedir ei ailddatblygu yn y dyfodol.
- Cynnydd o £0.9 miliwn mewn taliadau gwasanaeth gan fod dau o gynlluniau gofal ychwanegol newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi dod i reolaeth, fel y nodir uchod, ac effaith chwyddiant ar gostau'r holl wasanaethau.
- Cynnydd o £0.8 miliwn mewn costau cynnal a chadw/rheoli asedau. Roedd y cynnydd yn cynnwys gwariant ychwanegol ar iechyd a diogelwch, gwaith atal tân ac archwiliadau diogelwch trydanol, yn ogystal â chynnydd mewn costau gwaith atgyweirio ymatebol.
- Cynnydd mewn costau staff yn deillio o'r canlynol:
  - Dyfarniad cyflog blynyddol 2019/20.
  - Cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

## Costau Cyllido a Llog

Roedd y llog a oedd yn daladwy (£5.705 miliwn) yn gynnydd o £1.3 miliwn (29.5%) ar y flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2019, derbyniodd y Gymdeithas £20 miliwn ym mis Ebrill 2019 ac £20 miliwn ym mis Rhagfyr 2019 yn sgil y cyfleuster lleoli preifat a drefnwyd yn 2018.

Roedd cyfanswm y benthyciadau ar 31 Mawrth 2020 yn £168.5 miliwn, sef cynnydd net o £29.4 miliwn yn ystod y flwyddyn. Mae cyfran uchel o'r portffolio benthycia yn dal i fod mewn cyfleusterau cyfradd llog sefydlog. Cost gyfartalog benthycia ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 oedd 3.4% o gymharu â 3.2% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. Mae'r cynnydd cyfartalog yn y gyfradd i'w weld yn sgil y cyfleuster lleoli ychwanegol sydd ar gyfradd sefydlog hirdymor.

## Gwaredu Eiddo, Offer a Chyfarpar

Cofnodwyd gwarged net o £219,000 ar waredu eiddo, offer a chyfarpar. Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 11 o drafodiadau eiddo, ac roedd hyn yn cynnwys 4 o drafodiadau cynyddu/lleihau cyfran perchentaeth, 4 o drafodiadau Cymorth Prynu, 2 Hawl i Gaffael ac 1 gwerthiant gwirfoddol. Gwnaed y gwerthiant gwirfoddol yn unol â'r Strategaeth Cynaliadwyedd Eiddo a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

## Gwarged ar Ailbrisió Eiddo Buddsoddi

Mae Linc yn rheoli ac yn berchen ar sawl eiddo rhent y farchnad a gynhwysir, dan FRS 102, fel eiddo buddsoddi – sef eiddo tai nad ydynt yn dai cymdeithasol a gedwir i'w gosod. Caiff yr eiddo buddsoddi hwn ei brisió'n flynyddol yn unol â gofynion FRS 102 a SORP 2018, ac arweiniodd y gwarged ar y prisiad a gwblhawyd yn 2020 at gynnydd o £30,000 yng ngwerth yr eiddo.

Roedd prisiad yr arbenigwr annibynnol yn cynnwys 'ansicrwydd prisió materol' yn unol â VPS 3 a VPGA 10 'Red Book Global' Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). O'r herwydd, dylid rhoi llai o sicrwydd a mwy o ofal ynghlwm wrth brisiad yr eiddo buddsoddi nag a roddid yn arferol. Mae'r Bwrdd wedi ystyried yr ansicrwydd prisió materol a gynhwysir yn adroddiad yr arbenigwr annibynnol, ac er bod yn rhaid rhoi llai o sicrwydd a mwy o ofal ynghlwm wrth y prisiad, gellir parhau i ddibynnu arno. O'r herwydd, mae'r Bwrdd o'r farn fod y prisiad a gynhwysir yn adroddiad yr arbenigwr annibynnol yn adlewyrchiad cywir o werth teg yr eiddo buddsoddi. Nid oes gan Linc unrhyw fwriad i waredu'r eiddo tai dan sylw, a dim ond pe bai'r eiddo'n cael ei werthu y byddai'r cynnydd yn ei werth yn cael ei wireddu.

# Adolygiad Ariannol ac Adolygiad Perfformiad Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Adolygiad Perfformiad Gofal Linc

Mae Linc wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwasanaeth a gynigir ganddo i oedolion eiddil, oedrannus ac agored i niwed yn parhau i esblygu ac addasu fel y gellir diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ogystal ag anghenion yr amgylchedd gwleidyddol ac ariannol rydym yn gweithredu o'i fewn.

Mae gan y bobl sy'n byw yn ein cartrefi nyrsio lawer iawn o anghenion cymdeithasol a gofal. Rydym wedi croesawu'r ffocws ar lesiant, urddas a rheolaeth a ddisgrifir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i gynllunio a darparu gofal sy'n diwallu anghenion pob unigolyn. Rhoddwn y bobl rydym yn gofalu amdanynt wrth galon popeth a wnawn, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig er mwyn i bobl allu cael ansawdd bywyd da a chyfle i wneud penderfyniadau a pharhau i ddal gafael ar yr awenau.

Mae yna alw mawr am ein cartrefi nyrsio ymhlith pobl sy'n chwilio am ansawdd gofal da. Mae ein ffocws ar ansawdd y gwasanaeth, llywodraethu a rheolaeth ariannol yn darparu dull trionglog o reoli ein gwasanaethau ac yn rhoi sicrwydd i gwsmeriaid, comisiynwyr, y rheoleiddiwr a'n bwrdd. Cred Linc fod ansawdd gofal yn hollbwysig, ac mae'r bwrdd yn craffu ar berfformiad y busnes er mwyn sicrhau bod yna gydbwysedd rhwng y ffocws ariannol a'r ffocws ar ansawdd gofal.

Mae yna alw mawr o hyd am yr opsiynau tai 'byw'n annibynnol' a ddarparwn trwy gyfrwng Gofal Linc. Rydym wedi buddsoddi yn y pethau sydd bwysicaf i'n tenantiaid, gan sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel a chan eu galluogi yr un pryd i wneud yn fawr o'u hannibyniaeth a dal gafael arni. Rydym wedi dal gafael ar ein rheolwyr cynllun yn ein cynlluniau gwarchod, ac mae'r cynlluniau hyn wedi elwa hefyd ar raglen ragweithiol o waith cynnal a chadw ac ailwampio cynlluniedig, gan eu gwneud yn ddewis atyniadol a chadarnhaol i bobl sy'n elwa ar amgylchedd â chymorth ac amgylchedd a addaswyd. Ymhellach, mae ein cynlluniau gofal ychwanegol wedi'u llunio a'u hadeiladu ar sail y bobl sy'n dymuno byw ynddynt gan sicrhau, pa bryd bynnag y bo modd, nad oes yn rhaid i bobl symud cartref gan fod eu hamgylchedd yn methu cwrdd â'u hanghenion. Mae pobl eisiau aros yn eu cartrefi eu hunain, a thrwy gynnig addasiadau ffisegol priodol rydym yn llwyddo'n rhyfeddol i gynorthwyo pobl i gyflawni'r nod hwn.

I gymdeithasau sy'n darparu tai, gofal a chymorth i bobl agored i niwed a phobl hŷn, bydd y blynyddoedd nesaf yn parhau i esgor ar heriau ariannol a gweithredol. Byddwn yn parhau i weithio'n galed er mwyn sicrhau na fydd y pwysau ariannol ar gyllid cyhoeddus ac effaith y newidiadau yn y ddeddfwriaeth yn niweidio ein ffocws ar gyflawni llety, gofal a chymorth o safon uchel i'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Mae gan Linc hanes blaenorol o fod yn arloesol ac o addasu'n gadarnhaol i heriau newydd, gan fachu ar gyfleoedd wrth iddynt ddod i'r amlwg.

## Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol

	2020 £m	2019 £m
Asedau Sefydlog	339.0	303.6
Asedau Cyfredol	59.9	48.1
<b>Cyfanswm yr Asedau</b>	<b>398.9</b>	<b>351.7</b>
Benthyciadau Tai	168.6	139.2
Grant gan y Llywodraeth	171.0	157.3
Pob Rhwymedigaeth Arall	8.3	6.6
<b>Cyfanswm y Rhwymedigaethau</b>	<b>347.9</b>	<b>303.1</b>
<b>Asedau net fel y'u cynrychiolir gan gronfeydd wrth gefn</b>	<b>51.0</b>	<b>48.6</b>

# Adolygiad Ariannol ac Adolygiad Perfformiad Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Datganiad Cronfeydd Wrth Gefn

Ar 31 Mawrth 2020, cyfanswm y cronfeydd wrth gefn oedd £51.0 miliwn, sef cynnydd o £2.4 miliwn (5.0%) ers 2019. Roedd £48.6 miliwn o'r cronfeydd wrth gefn (a ailddatganwyd, fel y nodir yn nodyn 33) yn gronfeydd incwm a gwariant, gyda'r £2.1 miliwn a oedd yn weddill yn gronfeydd dynodedig a sefydlwyd i amnewid cyfarpar gwasanaethau mewn cynlluniau penodol.

Mae'r cronfeydd incwm a gwariant yn cynrychioli'r gwargedion (a'r diffygion) blynyddol cronedig ers i Linc gael ei ffurfio yn 1977. Ni chaiff y cronfeydd wrth gefn eu cefnogi gan arian bob amser ac maent wedi'u buddsoddi mewn eiddo tai nas cyllidir gan grantiau neu fenthyciadau. Defnyddir y cronfeydd wrth gefn at y dibenion a ganlyn:

- Er mwyn buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau presennol a newydd.
- Er mwyn galluogi Linc i godi cyllid fel y gellir parhau i fuddsoddi mewn cynlluniau presennol a newydd.
- Er mwyn darparu cronfa wrth gefn yn erbyn risgiau'r dyfodol a diffygion na chynlluniwyd ar eu cyfer yn y gyllideb.

## Cyfalaf Gweithio a Rheoli'r Trysorlys

Roedd sefyllfa cyfalaf gweithio Linc ar 31 Mawrth 2020 yn foddhaol. Roedd yr asedau cyfredol net yn £42.9 miliwn mewn cymhariaeth ag asedau cyfredol net o £32.2 miliwn ar 31 Mawrth 2019, sef cynnydd o £10.7 miliwn. Mae dau reswm wrth wraidd y cynnydd hwn mewn asedau cyfredol net. Yn gyntaf, y cynnydd o £6.9 miliwn mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod yn sgil tynnu £40 miliwn i lawr o'r cyfleuster Lleoli Preifat namyn y gwariant ar ddatblygiadau newydd. Yn ail, y cynnydd mewn grantiau gohiriedig (£2.7 miliwn) ar gyfer grant cyllid Tai sy'n daladwy dros 30 mlynedd (nodyn 16) ac £1.6 miliwn mewn grantiau'n ymwneud â Gofal.

Mae arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod o £46.5 miliwn yn adlewyrchu'r ffaith fod cyllid preifat wedi'i dynnu i lawr o'r cyfleuster Lleoli Preifat £75 miliwn. Byddwn yn parhau i drefnu cyllid newydd ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod gennym adnoddau arian parod i gyllido cynlluniau newydd a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

## Gwariant Cyfalaf ar Gartrefi Newydd

Yn ystod y flwyddyn, ysgwyddwyd gwariant cyfalaf o £35.7 miliwn wrth ddatblygu cynlluniau newydd. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ymrwymadau cyfalaf mewn perthynas â datblygiadau parhaus yn gyfanswm o £49.0 miliwn, a bydd y rhain yn cael eu cyllido trwy gyfuniad o Grant Tai Cymdeithasol, Grant Cyllid Tai, y Rhaglen Tai Arloesol a chyllid preifat.

## Dibrisiant

Mae Linc yn dibrisio prif gydrannau ei eiddo dros yr oes economaidd ddefnyddiol a ganlyn:

Ni chaiff tir rhydd-ddaliadol ei ddibrisio. Caiff tir lesddaliadol ei ddibrisio dros weddill cyfnod y lesioedd.

### Eiddo tai

Strwythur	150 mlynedd
Toeau	75 mlynedd
Ffenestri a drysau	35 mlynedd
Ystafelloedd ymolchi	30 mlynedd
Boeleri a systemau gwresogi	20 mlynedd
Ceginau	15 mlynedd
Lifftiau	15 mlynedd

### Eiddo gofal

Strwythur	50 mlynedd
Toeau	50 mlynedd
Ffenestri a drysau	35 mlynedd
Ystafelloedd ymolchi	30 mlynedd
Boeleri a systemau gwresogi	20 mlynedd
Ceginau	15 ac 20 mlynedd
Lifftiau	15 mlynedd

# Adolygiad Ariannol ac Adolygiad Perfformiad Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Cyllido

Caiff eiddo tai a oedd â chost hanesyddol o £377 miliwn ar 31 Mawrth 2020 ei gyllido fel a ganlyn:

Grant Tai Cymdeithasol (£194m)	51%
Cyllid preifat (£169m)	45%
Cronfeydd wrth gefn a chyfalaf gweithio (£14m)	4%

Mae gan Linc ddeg o gyllidwyr sy'n darparu cyllid preifat. Dyma'r cyllid a ddarparwyd gan bob un o'r rhain ar 31 Mawrth 2020:

Cyllidwr	Swm y Cyfleuster (£)
Dexia Credit Local	30.5m
HBOS Plc	1.1m
M&G Investments Ltd.	5.3m
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	18.9m
Orchardbrook Ltd.	1.8m
Cymdeithas Adeiladu Principality	8.6m
Lleoli Preifat	75.0m
RBS Plc	22.2m
Llywodraeth Cymru	5.6m

## Cyfleusterau sydd heb eu tynnu i lawr

Mae cyfleuster credyd cylchol ar gyfer £20 miliwn, gydag Opsiwn Acordion ar gyfer £5 miliwn yn ychwaneg, ar waith gyda Svenska Handelsbanken. Ar 31 Mawrth 2020, nid oedd unrhyw swm wedi'i dynnu i lawr o'r cyfleuster hwn ac roedd £20 miliwn ar gael.

## Cyfamodau Ariannol

Caiff y modd y cydymffurfiwn â chyfamodau benthyciadau ei fonitro a'i adrodd i'r Bwrdd bob mis. Llwyddodd Linc i gwrdd â holl ofynion y cyfamodau ariannol a gynhwysir yn nogfennaeth benthyciadau ei gyllidwyr preifat yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.



# Adolygiad Ariannol ac Adolygiad Perfformiad Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Stoc Eiddo

Roedd y stoc eiddo a oedd mewn rheolaeth ar 31 Mawrth 2020 fel a ganlyn:

Anghenion Cyffredinol	2,966
Gofal Ychwanegol	359
Tai Gwarchod a Thai â Chymorth	578
Rhanberchnogaeth	140
Opsiwn Cymorth Prynu	86
Canolradd / Rhent y Farchnad	351
Gofal Nyrsio	210
Unedau Manwerthu	9
<b>Cyfanswm yr Unedau</b>	<b>4,699</b>

## Cyflogeion

Nifer cyfartalog y cyflogeion yn ystod y flwyddyn oedd 654 (2019, 662 o gyflogeion), gyda 446 yn gyfwerth ag amser llawn (2019, 491 yn gyfwerth ag amser llawn). Ein strategaeth barhaus ar gyfer ein cartrefi nyrsio yw bod yn llai dibynnol ar staff asiantaeth costus a ddefnyddir i gyflenwi yn ystod cyfnodau o absenoldeb cynlluniedig/anghynlluniedig. Trwy gydweddu'r strategaeth hon ag adolygiad llawn o rotâu'r staff, rydym wedi llwyddo i leihau ein costau staffio yn ein cartrefi gofal yn ystod 2019/20.

## Dysgu a Datblygu

Rhodddwn bwyslais mawr ar ddysgu, datblygu a llesiant ein cyflogeion er mwyn iddynt allu dilyn deddfwriaethau a thechnolegau datblygol, rhoi dulliau newydd ar waith a chyfoethogi eu sgiliau. Caiff sesiynau dysgu a thyfu eu darparu i'r rhai sy'n dymuno datblygu eu gyrfa, ac rydym yn gallu dal gafael yn rheolaidd ar ein cyflogeion trwy gyfrwng dyrchafu mewnol.

Mae gan y Bwrdd gynllun Dysgu a Datblygu blynyddol lle ceir darpariaeth gyfunol o gyfleoedd, yn cynnwys cyrsiau hyfforddi, gweminarau, y diweddaraf am brosiectau, a chynadleddau.

## Safon Ansawdd Tai Cymru

Llwyddodd Linc i gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru yn ôl yn 2012/13 ac rydym wedi ymrwymo i gadw ein stoc ar y safon hon. Mae'r amcanestyniadau ariannol a geir yn ein model ariannol 30 mlynedd yn cadarnhau y gall Linc fforddio ariannu'r gwaith cynnal a chadw angenrheidiol er mwyn cynnal Safon Ansawdd Tai Cymru dros y 30 mlynedd nesaf, a hynny trwy ffrydiau refeniw blynyddol. Mae'r rhaglen waith ar y gweill.

# Adolygiad Ariannol ac Adolygiad Perfformiad Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Dangosyddion Perfformiad

Caiff targedau eu gosod ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol cyhoeddedig a chânt eu defnyddio i reoli perfformiad a phennu strategaethau ar gyfer gwelliant parhaus. Mae'r holl ddangosyddion yn deillio o ddata mewnol a chânt eu cyfrifo yn unol â Dangosyddion Perfformiad Allweddol cyhoeddedig. Bob chwarter, bydd y Bwrdd yn cael adroddiad am ein perfformiad ar sail y dangosyddion hyn. Ar dudalennau 72-74 y datganiadau ariannol ceir crynodeb saith mlynedd o ganlyniadau gweithredu a chanlyniadau ariannol Linc.

## Datganiadau Ariannol y Grŵp a'r Is-gwmni

Ym mis Awst 2009 aeth Linc ati i ffurfio is-gwmni, sef Tarbed Cyfyngedig, i fynd i'r afael â gwaith datblygu ar ei ran, er mwyn i Linc allu elwa i'r eithaf ar hyfywedd ariannol datblygiadau newydd. Mae Linc yn berchen yn llwyr ar yr is-gwmni a chaiff canlyniadau Tarbed eu cynnwys yn natganiadau ariannol grŵp cyfunol Cymdeithas Tai Linc-Cymru.

Llwyddodd Tarbed i wneud elw blynyddol cyn treth o £183,547 yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, a chafodd yr elw hwn i gyd ei roi i Gymdeithas Tai Linc-Cymru dan y ddeddfwriaeth Rhodd Cymorth Corfforaethol. Mae Gweithred Cyfamod, dyddiedig 30 Tachwedd 2017, i'w chael rhwng Cymdeithas Tai Linc-Cymru a Tarbed, lle nodir y bydd holl elw Tarbed yn cael ei drosglwyddo i Linc. Gellir cael copiâu o ddatganiadau ariannol Tarbed gan Ysgrifennydd Cwmni Linc.

## Strategaeth Cynaliadwyedd Eiddo

Mae gan Linc Strategaeth Cynaliadwyedd Eiddo hirdymor sydd wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r strategaeth yn ymdrin â risg y sector, sydd wedi pennu y gall fod yna eiddo mewn ardaloedd lle nad yw'r galw presennol amdano mor gryf ag y bu ers talwm, gyda risgiau dilynol o ran galw isel, lleoedd gwag ac amhariad. Mae strategaeth Linc wedi pennu eiddo a meysydd penodol lle'r ydym wedi gwerthuso y bydd y risgiau hyn yn datblygu yn y dyfodol. Pan ddaw'r eiddo a bennir yn y strategaeth yn wag, gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid cael gwared â'r eiddo. Mae'r Bwrdd yn adolygu'r strategaeth bob blwyddyn fel rhan o'r broses cynllunio busnes. Ym mlwyddyn ariannol 2019/20, cafodd un eiddo a gynhwyswyd yn y strategaeth ei werthu.

## Datblygu

Yn ystod 2019/20 daeth swm net o 210 o gartrefi tai cymdeithasol ychwanegol i reolaeth, yn cynnwys 70 o gartrefi a drosglwyddwyd o Gymdeithas Tai Baneswell Cyf, un cynllun gofal ychwanegol arall ym Mhen-y-bont ar Ogwr, cartrefi gwarchod a 45 o gartrefi rhent canolradd.

## Datblygiadau Arfaethedig ar gyfer 2020/21 i 2024/25

Mae'r gyllideb a'r dangosyddion amcanol a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn cynnwys rhaglen ddatblygu'n ymwneud â chynlluniau dynodedig ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sy'n cyfateb i 1,055 o gartrefi tai cymdeithasol a ddaw i reolaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r rhaglen ddatblygu'n cynnwys pedwar cynllun gofal ychwanegol arall ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Ar hyn o bryd mae gwaith yn cael ei wneud ar y safle mewn perthynas â nifer o'r cynlluniau hyn, a disgwylir y bydd nifer o gartrefi tai cymdeithasol newydd yn cael eu cwblhau a'u trosglwyddo yn ystod 2020/21 – er, fe fydd hyn yn digwydd yn hwyrach nag a nodir yn y gyllideb yn achos rhai o'r cynlluniau, gan fod y safleoedd wedi gorfod cau yn sgil COVID-19. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cyllido gan Grant Tai Cymdeithasol, Grant Cyllid Tai, y Rhaglen Tai Arloesol a benthyciadau cyllid preifat. Mae'r cynlluniau wedi'u lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ym Mlaenau Gwent, yng Nghaerffili, yng Nghaerdydd, yng Nghasnewydd ac yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Pwyllgor Datblygu yn adolygu cynnydd y rhaglen ddatblygu.

Ar 31 Mawrth 2020, roedd gan y Gymdeithas £4.0 miliwn yn y Gronfa Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu a'r Gronfa Enillion o Warediadau, a bydd y swm hwn yn cael ei ddyrannu i gynlluniau newydd wrth iddynt gael eu datblygu yn ystod 2020/21 ac mewn blynyddoedd diweddarach.

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol ar gyfer aelodau Cymdeithas Tai Linc-Cymru

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cymdeithas Tai Linc-Cymru (y 'rhiant gymdeithas') a'i his-gwmnïau (y 'grŵp') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, sy'n cynnwys y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr, datganiad o incwm cynhwysfawr y gymdeithas, y datganiad cyfunol o'r sefyllfa ariannol, y datganiad cyfunol o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn, datganiad y gymdeithas o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn, y datganiad cyfunol o lif arian a'r nodiadau sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol, yn cynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu pwysig. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn cyd-fynd â'r gyfraith briodol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig yn cynnwys Safon Adrodd Ariannol 102; Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y grŵp a'r rhiant gymdeithas ar 31 Mawrth 2020 ac o incwm a gwariant y grŵp a'r rhiant gymdeithas ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yr adeg honno;
- wedi cael eu paratoi'n briodol, yn unol â Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008, a Phenderfyniad Cyffredinol (Cymru) 2015 ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

### Sail y farn

Cawsom ein penodi fel archwilydd dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac adroddwn yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf honno. Aethom ati i gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a chyfraith gymwys. Caiff ein cyfrifoldebau dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y gymdeithas yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC), ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

### Effaith ansicrwydd macro-economaidd ar ein harchwiliad

Mae ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni ddeall pob ansicrwydd perthnasol, yn cynnwys yr ansicrwydd a gyfyd o ganlyniad i effeithiau ansicrwydd macro-economaidd fel Covid-19 a Brexit. Mae pob archwilydd yn asesu ac yn cwestiynu pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon a wneir gan y cyfarwyddwyr, ynghyd â'r datgeliadau cysylltiedig, a pha mor briodol yw defnyddio'r sail 'busnes hyfyw' wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Mae'r rhain i gyd yn ddibynnol ar asesu amgylchedd economaidd y dyfodol a rhagolygon a pherfformiad y cwmni yn y dyfodol. Mae Covid-19 a Brexit ymhlith y digwyddiadau economaidd mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu'r DU ar hyn o bryd, ac ar y dyddiad y lluniwyd yr adroddiad hwn mae eu heffeithiau'n amodol ar lefelau digyffelyb o ansicrwydd, oherwydd ni wyddys beth fydd ystod lawn y canlyniadau posibl na'u heffeithiau. Wrth asesu rhagolygon a pherfformiad y cwmni fe wnaethom ddefnyddio dull safonedig ledled y cwmni mewn ymateb i'r ansicrwydd hwn. Fodd bynnag, ni ddylid disgwyl i unrhyw archwiliad ragweld y ffactorau sy'n amhosibl eu gwybod neu holl oblygiadau posibl y dyfodol ar gyfer cwmni sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau arbennig hyn.

### Pwysleisio mater – prisio eiddo

Tynnwn sylw at Nodyn 1f y datganiadau ariannol, lle disgrifir y sail dros brisio eiddo buddsoddi. Aeth y rheolwyr ati i gyflogi arbenigwr i brisio'u portffolio eiddo buddsoddi. Roedd prisiad yr arbenigwr yn cynnwys 'ansicrwydd prisio materol' yn unol â VPS 3 a VPGA 10 'Red Book Global' Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). O'r herwydd, dylid rhoi llai o sicrwydd a mwy o ofal ynghlwm wrth brisiad yr eiddo buddsoddi nag a roddid yn arferol. Nid yw ein barn wedi newid mewn perthynas â'r mater hwn.

## **Casgliadau'n ymwneud â'r busnes hyfyw**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni adrodd i chi amdanynt:

- pan na fo defnydd y bwrdd o'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- pan na fo'r bwrdd wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd materol a all fwrw amheuaeth fawr ar allu'r cwmni i barhau i fabwysiadu sail busnes hyfyw o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Yn ein gwerthusiad o gasgliadau'r cyfarwyddwyr fe wnaethom ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â busnes y cwmni, yn cynnwys yr effeithiau a gyfyd o ansicrwydd macro-economaidd fel Covid-19 a Brexit, gan fynd ati i ddadansoddi sut gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol neu allu'r cwmni i barhau â'i weithrediadau dros gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol. Yn unol â'r uchod, nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Fodd bynnag, gan na allwn ragweld holl amodau neu ddigwyddiadau'r dyfodol, a chan y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg y'u gwnaethpwyd, nid yw'r ffaith na chyfeirir at ansicrwydd materol yn yr adroddiad archwilio hwn yn gwarantu y bydd y cwmni'n parhau i weithredu.

## **Gwybodaeth arall**

Y bwrdd sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, a nodir ar dudalennau 2 i 29, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilio ni am hynny. Nid yw ein barn ynglŷn â'r datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall; hefyd, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ynghylch sicrwydd am hynny. O ran ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall, a thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth ni a ddeilliodd o'r archwiliad, neu a ymddengys ei bod wedi'i cham-ddatgan yn faterol fel arall. Os deawn ar draws anghysondeb materol o'r fath, neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes yna gamddatgan materol yn y datganiadau ariannol neu gamddatgan materol mewn perthynas â'r wybodaeth arall. Os deawn i'r casgliad, ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, fod yna gamddatgan materol mewn perthynas â'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## **Materion mae'n ofynnol i ni adrodd amdanynt trwy eithriad**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni adrodd i chi amdanynt os, yn ein barn ni:

- na chynhaliwyd system reolaeth foddhaol dros drafodion;
- nad yw'r rhiant gymdeithas wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r llyfrau cyfrifon;
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

## **Cyfrifoldebau'r bwrdd dros y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd ar dudalen 14, mae'r bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon bod y datganiadau hyn yn cynnig darlun gwir a theg, ac mae'n gyfrifol am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y bwrdd er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad oes ynddynt gamddatgan materol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu amryfusedd.



Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r rhiant gymdeithas i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol faterion yn ymwneud â'r busnes hyfyw a defnyddio'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu, oni bai bod y bwrdd naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp neu'r rhiant gymdeithas neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddo unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

### **Cyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol fel cyfanwaith yn cynnwys cam-ddatgan materol ai peidio, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu amryfusedd, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilio. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) wastad yn canfod cam-ddatgan materol pan fo'n bodoli.

Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu amryfusedd ac fe'u hystyrir yn gamddatganiadau materol os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, ar eu pen eu hunain neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.


Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

### **Barn ynghylch materion eraill a bennir gan Gylchlythyr y Cymdeithasau Tai 02/10 Rheolaeth Fewnol a Chyflwyno Adroddiadau ("y Cylchlythyr")**

O ran datganiad y Bwrdd ynghylch rheolaeth fewnol ar dudalen 14, yn ein barn ni mae'r Bwrdd wedi cyflwyno'r datgeliadau sy'n ofynnol gan y Cylchlythyr ac nid yw'r datganiad yn anghyson â'r wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni yn sgil ein gwaith archwilio ar y datganiadau Ariannol.

### **I bwy yr adroddwn**

Llunnir yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r gymdeithas yn unig, fel corff, yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan Adrannau 87 a 98(7) Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Aethpwyd i'r afael â'n gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan i aelodau'r gymdeithas y materion hynny mae'n ofynnol i ni eu datgan mewn adroddiad archwilio, ac i ddim diben arall. Cyn belled ag y caniateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo dyletswydd dros unrhyw un, ac eithrio'r gymdeithas ac aelodau'r gymdeithas fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y farn y daethom iddi.



Grant Thornton UK LLP  
Archwilydd Statudol, Cyfrifwyr Siartredig  
Caerdydd


**Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr  
Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer  
y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020**

	Nodyn	<b>Mawrth 2020 £000</b>	<b>Ailddatganwyd Mawrth 2019 £000</b>
<b>Trosiant</b>	2	40,944	38,278
<b>Gwariant gweithredu</b>	2	(35,432)	(31,938)
Enillion ar waredu eiddo, offer a chyfarpar (asedau sefydlog)	3	2	316
Enillion ar drosglwyddo ymgymeriadau	3	2,363	0
Incwm Arall	3	30	455
<b>Gwarged gweithredu</b>	2	7,907	7,111
Llog derbyniadwy	4	261	135
Costau cyllido a llog	6	(5,705)	(4,395)
<b>Gwarged ar gyfer y flwyddyn</b>		2,463	2,851
<b>Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn</b>		2,463	2,851

**Gweithrediadau Parhaus**

Mae'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 a'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 yn ymwneud yn gyfan gwbl â gweithgareddau parhaus.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli a'u hawdurdodi ar 3 Medi 2020 a'u llofnodi ar ran y Bwrdd gan:

..... Richard Norton (Cadeirydd)

..... Julia Attwell (Is-gadeirydd)

..... Campbell Bardo (Ysgrifennydd)


**Datganiad y Gymdeithas o Incwm Cynhwysfawr  
Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer  
y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020**


	Nodyn	<b>Mawrth 2020 £000</b>	<b>Ailddatganwyd Mawrth 2019 £000</b>
<b>Trosiant</b>	2	40,854	38,114
<b>Gwariant gweithredu</b>	2	(35,331)	(31,775)
Enillion ar waredu eiddo, offer a chyfarpar (asedau sefydlog)	3	2	316
Enillion ar drosglwyddo ymgymeriadau	3	2,363	0
Incwm Arall	3	214	644
<b>Gwarged gweithredu</b>	2	8,102	7,299
Llog derbyniadwy	4	277	145
Costau cyllido a llog	6	(5,705)	(4,395)
<b>Gwarged ar gyfer y flwyddyn</b>		2,674	3,049
<b>Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn</b>		2,674	3,049

**Gweithrediadau Parhaus**

Mae'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 a'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 yn ymwneud yn gyfan gwbl â gweithgareddau parhaus.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli a'u hawdurdodi ar 3 Medi 2020 a'u llofnodi ar ran y Bwrdd gan:

.....  
  
 Richard Norton (Cadeirydd)


.....  
  
 Julia Attwell (Is-gadeirydd)


.....  
  
 Campbell Bardo (Ysgrifennydd)


**Datganiad Cyfunol o Sefyllfa Ariannol  
Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar  
gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020**

	Nodyn	Mawrth 2020 £000	Ailddatganwyd Mawrth 2019 £000
<b>Asedau Sefydlog</b>			
Asedau Sefydlog Diriaethol			
Eiddo Tai	10	325,141	290,108
Asedau sefydlog eraill	11	2,620	2,142
Eiddo Buddsoddi	12	10,690	10,660
Benthyciadau Cymorth Prynu derbyniadwy	13	561	661
Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau	14	0	0
<b>Cyfanswm yr Asedau Sefydlog</b>		<b>339,012</b>	<b>303,571</b>
<b>Asedau Cyfredol</b>			
Dyledwyr masnach a dyledwyr eraill	16	13,452	8,567
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod	17	46,475	39,570
		59,927	48,137
<b>Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn</b>	18	<b>(17,052)</b>	<b>(15,939)</b>
Asedau cyfredol net		42,875	32,198
<b>Cyfanswm yr Asedau namyn Rhwymedigaethau Cyfredol</b>		<b>381,887</b>	<b>335,769</b>
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	19	(330,838)	(287,183)
<b>Cyfanswm yr Asedau Net</b>		<b>51,049</b>	<b>48,586</b>
<b>Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn</b>			
Cronfa Ddynodedig		2,145	2,281
Cronfa Incwm a Gwariant		48,904	46,305
<b>Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn</b>	33	<b>51,049</b>	<b>48,586</b>

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli a'u hawdurdodi ar 3 Medi 2020 a'u llofnodi ar ran y Bwrdd gan:

.....  ..... Richard Norton (Cadeirydd)

.....  ..... Julia Attwell (Is-gadeirydd)

.....  ..... Campbell Bardo (Ysgrifennydd)




**Datganiad y Gymdeithas o Sefyllfa Ariannol  
Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer  
y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020**

	Nodyn	Mawrth 2020 £000	Ailddatganwyd Mawrth 2019 £000
<b>Asedau Sefydlog</b>			
Asedau Sefydlog Diriaethol			
Eiddo Tai	10	325,923	290,679
Asedau sefydlog eraill	11	2,620	2,142
Eiddo Buddsoddi	12	10,690	10,660
Benthyciadau Cymorth Prynu derbyniadwy	13	561	661
Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau	14	0	0
<b>Cyfanswm yr Asedau Sefydlog</b>		<b>339,794</b>	<b>304,142</b>
<b>Asedau Cyfredol</b>			
Dyledwyr masnach a dyledwyr eraill	16	13,570	8,655
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod	17	46,383	39,503
		59,953	48,158
<b>Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn</b>	18	<b>(17,085)</b>	<b>(15,967)</b>
Asedau cyfredol net		42,868	32,191
<b>Cyfanswm yr Asedau namyn Rhwymedigaethau Cyfredol</b>		<b>382,662</b>	<b>336,333</b>
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	19	(330,838)	(287,183)
<b>Cyfanswm yr Asedau Net</b>		<b>51,824</b>	<b>49,150</b>
<b>Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn</b>			
Cronfa Ddynodedig		2,145	2,281
Cronfa Incwm a Gwariant		49,679	46,869
<b>Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn</b>	33	<b>51,824</b>	<b>49,150</b>

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli a'u hawdurdodi ar 3 Medi 2020 a'u llofnodi ar ran y Bwrdd gan:

..... Richard Norton (Cadeirydd)

..... Julia Attwell (Is-gadeirydd)

..... Campbell Bardo (Ysgrifennydd)

**Datganiad Cyfunol o Newidiadau yng Nghronfeydd  
Wrth Gefn Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig  
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020**

	Tai â Chymorth £000	Cyfarpar Gwasanaethau £000	Cyfanswm Dynodedig £000	Refeniw £000
<b>Balans ar 1 Ebrill 2018 (ailddatganwyd, nodyn 33)</b>	376	1,863	2,239	43,496
Gwarged ar gyfer y flwyddyn (ailddatganwyd, nodyn 33)	0	0	0	2,851
Trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn	(23)	(250)	(273)	273
Trosglwyddo o gronfeydd wrth gefn	42	273	315	(315)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2018 (ailddatganwyd, nodyn 33)</b>	395	1,886	2,281	46,305
Gwarged ar gyfer y flwyddyn	0	0	0	2,463
Trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn	(0)	(444)	(444)	444
Trosglwyddo o gronfeydd wrth gefn	0	308	308	(308)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2020</b>	395	1,750	2,145	48,904

**Datganiad y Gymdeithas o Newidiadau yng  
Nghronfeydd Wrth Gefn Cymdeithas Tai Linc-Cymru  
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020**

	Tai â Chymorth £000	Cyfarpar Gwasanaethau £000	Cyfanswm Dynodedig £000	Refeniw £000
<b>Balans ar 1 Ebrill 2018 (ailddatganwyd, nodyn 33)</b>	376	1,863	2,239	43,862
Gwarged ar gyfer y flwyddyn (ailddatganwyd, nodyn 33)	0	0	0	3,049
Trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn	(23)	(250)	(273)	273
Trosglwyddo o gronfeydd wrth gefn	42	273	315	(315)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2018 (ailddatganwyd, nodyn 33)</b>	395	1,886	2,281	46,869
Gwarged ar gyfer y flwyddyn	0	0	0	2,674
Trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn	0	(444)	(444)	444
Trosglwyddo o gronfeydd wrth gefn	0	308	308	(308)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2020</b>	395	1,750	2,145	49,679

# Datganiad Cyfunol o Lif Arian Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

	<b>Mawrth 2020 £000</b>	<b>Ai-ddatganwyd Mawrth 2019 £000</b>
<b>Gwarged ar gyfer y flwyddyn</b>	2,463	2,851
<b>Addasiad ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod:</b>		
Dibrisiant eiddo, offer a chyfarpar	4,676	4,342
(Cynnydd) mewn dyledwyr	(3,164)	(410)
Cynnydd mewn credydwyr	1,193	47
Enillion ar drosglwyddo ymgymeriadau	(2,363)	0
Colled amhariad ar eiddo, offer a chyfarpar	1,486	0
(Cynnydd) yng ngwerth teg eiddo buddsoddi	(30)	(455)
<b>Addasiadau ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu gyllido:</b>		
Elw / (colled) yn sgil gwerthu eiddo, offer a chyfarpar	(2)	(316)
Grantiau'r llywodraeth a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(1,571)	(1,486)
Llog taladwy	5,705	4,395
Llog derbyniadwy	(261)	(135)
Arian parod a dderbyniwyd ar drosglwyddo ymgymeriadau	822	0
<b>Arian parod net a gynhyrchwyd yn sgil gweithgareddau gweithredu</b>	<b>8,954</b>	<b>8,833</b>
<b>Llif arian o weithgareddau buddsoddi</b>		
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	(36,681)	(29,877)
Gwaith i eiddo presennol	(2,980)	(2,107)
Enillion yn sgil gwerthu eiddo, offer a chyfarpar	769	1,535
Grantiau a dderbyniwyd	12,450	15,980
Llog a dderbyniwyd	261	135
<b>Llif arian net o weithgareddau buddsoddi</b>	<b>(26,181)</b>	<b>(14,334)</b>
<b>Llif arian o weithgareddau cyllido</b>		
Llog a dalwyd	(5,257)	(3,832)
Benthyciadau newydd	42,742	58,963
Ad-daliadau ar fenthyciadau	(13,353)	(28,236)
<b>Llif arian net o weithgareddau cyllido</b>	<b>24,132</b>	<b>26,895</b>
<b>Cynnydd net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod</b>	<b>6,905</b>	<b>21,394</b>
<b>Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn</b>	<b>39,570</b>	<b>18,176</b>
<b>Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn</b>	<b>46,475</b>	<b>39,570</b>

## Llif arian rhydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

	<b>Mawrth 2020 £000</b>	<b>Mawrth 2019 £000</b>
<b>Arian parod net a gynhyrchwyd yn sgil gweithgareddau gweithredu</b>	8,954	8,833
Llog a dalwyd	(5,257)	(3,832)
Llog a dderbyniwyd	261	135
<b>Addasiadau ar gyfer ail-fuddsoddi mewn eiddo presennol</b>		
Gwaith i eiddo presennol	(2,980)	(2,107)
<b>Arian parod rhydd a gynhyrchwyd cyn ad-dalu benthyciadau</b>	<b>978</b>	<b>3,029</b>
Benthyciadau a ad-dalwyd	(13,353)	(28,236)
<b>Arian parod rhydd a gynhyrchwyd ar ôl ad-dalu benthyciadau</b>	<b>(12,375)</b>	<b>(25,207)</b>

# Nodiadau'n ymwneud â Datganiadau Ariannol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## 1. Polisiâu Cyfrifyddu

Caiff y prif bolisiau cyfrifyddu eu crynhoi isod. Mae pob un ohonynt wedi'u rhoi ar waith mewn modd cyson drwy gydol y flwyddyn, a'r flwyddyn flaenorol.

### a) Sail Cyfrifyddu

Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi yn ôl y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gynnwys rhai eitemau ar werth teg, yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, ac maent yn cydymffurfio â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Darparwyr Tai Cofrestredig 2018 (SORP), Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol (Cymru) 2015 ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail croniadau, ac eithrio'r datganiad o lif arian. Mae Linc yn 'endid budd cyhoeddus', fel y'i diffinnir yn FRS 102, ac mae'n gweithredu'r paragraffau perthnasol a chanddynt y rhagddodiad 'PBE' ('endid budd cyhoeddus') yn FRS 102.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag FRS 102, mae'n ofynnol defnyddio rhai amcangyfrifon cyfrifyddu pwysig. Hefyd, mae'n ofynnol i'r rheolwyr arfer barn wrth weithredu polisiâu cyfrifyddu Linc (gweler tudalen 21).

Mae SORP 2018 yn fwy disgrifiadol yn yr eitemau a gynhwysir o fewn gwared gweithredu, ac felly mae Linc wedi adlewyrchu hyn yn ei ddatganiadau ariannol. Mae hyn wedi arwain at newid y modd y cyflwynir gwared gweithredu o gymharu â'r cyfnod blaenorol (gweler tudalen 21).

#### Busnes Hyfyw

Caiff gweithgareddau Linc, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad yn y dyfodol, ei sefyllfa ariannol, ei ddulliau rheoli risgiau, manylion am ei offerynnau ariannol, a'i gysylltiad â risgiau credyd, hylifedd a llif arian, eu nodi yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw. Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r rhagolygon llif arian a'r amcanestyniadau ariannol eraill, ac yn arbennig mae wedi ystyried effaith Covid 19 ar y busnes hyfyw. Mae rhagolygon ac amcanestyniadau'r Grŵp, gan ystyried newidiadau posibl rhesymol yn y perfformiad gweithredu, yn dangos y bydd modd i'r Grŵp weithredu o fewn lefel ei gyfleusterau a'u cyfamodau cysylltiedig am gyfnod rhagolygol o 12 mis o leiaf o'r dyddiad y cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn. Caiff y goblygiadau sydd ynghlwm wrth Covid 19, ynghyd ag ymateb Linc, eu nodi isod.

Mae gan Linc adnoddau ariannol sylweddol ac, o ganlyniad, cred y Bwrdd fod Linc mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes yn llwyddiannus er gwaethaf yr ansicrwydd presennol yn y sector tai cymdeithasol, yn cynnwys effaith Covid 19.

Ar ôl gwneud ymholiadau, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol fod Linc yn meddu ar adnoddau digonol i barhau i fodoli'n weithredol hyd y gellir rhagweld. Yn unol â hynny, mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad y gall barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

#### Addasiad Cyfnod Blaenorol

Mae addasiad cyfnod blaenorol mewn perthynas â dibrisio eiddo lesddaliadol Linc wedi'i bennu. Mae hyn wedi'i gywiro'n ôl-weithredol yn y datganiadau ariannol cyntaf ar ôl ei ganfod trwy fynd ati i ailddatgan balans cychwynnol asedau, rhwymedigaethau ac ecwiti ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu cynharaf a gyflwynwyd. Caiff esboniad o'r addasiad cyfnod blaenorol ei gynnwys yn Nodyn 33 y Datganiadau Ariannol.

# Nodiadau'n ymwneud â Datganiadau Ariannol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## b) Sail Cyfuno

Mae datganiadau ariannol Linc yn cyfuno datganiadau ariannol Linc a'i is-gwmni, Tarbed Cyfyngedig, a lunnir hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn.

## c) Eiddo, Offer a Chyfarpar – Eiddo Tai

Caiff eiddo tai ei ddatgan am y gost namyn dibrisiant namyn dibrisiant cronodig a cholledion amhariad cronodig. Mae'r gost yn cynnwys y gost o gaffael tir ac adeiladau, costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r eiddo tai, a chostau benthyca y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r gwaith o adeiladu eiddo tai newydd yn ystod y datblygiad. Daw'r cyfalafu i ben ar ôl i'r holl weithgareddau sy'n angenrheidiol i barato'i'r ased ar gyfer ei ddefnyddio gael eu cwblhau i raddau helaeth.

Pan fydd Linc yn prynu eiddo newydd fel rhan o gytundeb adran 106 rhwng yr Awdurdod Lleol a datblygwr, y swm a gaiff ei gyfalafu i asedau sefydlog yw'r pris a dalwyd am brynu'r eiddo. Fel arfer, bydd y pris prynu yn bris gostyngol, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa nad yw Linc fel arfer yn cael grant tuag at y gost o gaffael eiddo dan gytundeb adran 106. Codir dibrisiant ar y pris prynu a dalwyd am yr eiddo.

Caiff dibrisiant ei godi er mwyn gostwng gwerth llyfr net yr eiddo tai i'r gwerth gweddillol amcangyfrifedig, ar sail llinell syth, dros oes economaidd ddefnyddiol yr eiddo. Ni chaiff tir rhydd-ddaliadol ei ddibrisio.

### Prif Gydrannau

Caiff prif gydrannau eiddo tai, y mae ganddynt batrymau gwahanol iawn o ran defnyddio buddion economaidd, eu trin fel asedau ar wahân a'u dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yn ôl y cyfraddau blynyddol a ganlyn:

<b>Eiddo tai</b>	Strwythur	150 mlynedd
	Toeau	75 mlynedd
	Ffenestri a drysau	35 mlynedd
	Ystafelloedd ymolchi	30 mlynedd
	Boeleri a systemau gwresogi	20 mlynedd
	Ceginau	15 mlynedd
	Lifftiau	15 mlynedd
<b>Eiddo gofal</b>	Strwythur	50 mlynedd
	Toeau	50 mlynedd
	Ffenestri a drysau	35 mlynedd
	Ystafelloedd ymolchi	30 mlynedd
	Boeleri a systemau gwresogi	20 mlynedd
	Ceginau	15 ac 20 mlynedd
	Lifftiau	15 mlynedd

Caiff eiddo les ei ddibrisio dros ei oes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, neu dros gyfnod y les os yw'n fyrrach.



# Nodiadau'n ymwneud â Datganiadau Ariannol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Gwelliannau

Yn achos gwelliannau i eiddo tai y disgwylir iddynt esgor ar fuddion cynyddol yn y dyfodol, caiff y gwelliannau hyn eu cyfalafu a'u hychwanegu at 'swm cario ymlaen' yr eiddo. Yn achos unrhyw waith i eiddo tai nad yw'n amnewid cydran neu'n arwain at fudd cynyddol yn y dyfodol, caiff ei godi fel gwariant o fewn y gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

## Lesddeiliaid

Pan fo'r hawliau a'r rhwymedigaethau dros wella eiddo tai yn gorwedd gyda'r lesddeiliad neu'r tenant, a phe bai Linc yn ysgwyddo unrhyw waith i wella eiddo o'r fath, dylid ailgodi'r swm ar y lesddeiliad a'i gydnabod o fewn y gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ynghyd â'r incwm cyfatebol gan y lesddeiliad neu'r tenant.

## d) Eiddo Rhanberchnogaeth

Caiff eiddo rhanberchnogaeth ei hollti mewn modd cymesur rhwng asedau cyfredol ac asedau sefydlog ar sail yr elfen sy'n ymwneud â gwerthiannau disgwylidig y tranche cyntaf. Caiff cyfran y tranche cyntaf ei dosbarthu fel ased cyfredol a chaiff enillion gwerthiannau cysylltiedig eu cynnwys yn y trosiant, a chaiff yr elfen sy'n weddill ei dosbarthu fel ased sefydlog a'i chynnwys o fewn eiddo tai am y gost, namyn unrhyw ddarpariaethau angenrheidiol ar gyfer dibrisiant neu amhariad.

## e) Eiddo, Offer a Chyfarpar nad ydynt yn ymwneud â Thai

Nodir eiddo, offer a chyfarpar nad ydynt yn ymwneud â thai yn ôl eu cost hanesyddol namyn dibrisiant cronedig ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Caiff dibrisiant ei gymhwyso at eiddo, offer a chyfarpar o bob math nad ydynt yn ymwneud â thai, ac eithrio eiddo buddsoddi a thir rhydd-ddaliadol, a hynny ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost neu brisiad yr holl asedau, namyn eu gwerth gweddillol amcangyfrifedig, ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

Swyddfeydd rhydd-ddaliadol	25 mlynedd
Gwelliannau i swyddfeydd	5 mlynedd
Dodrefn a Chyfarpar Swyddfa	3 i 10 mlynedd
Cyfarpar Cyfrifiadurol	4 i 5 mlynedd

## f) Eiddo Buddsoddi

Mae'r modd y caiff eiddo ei ddsbarthu fel 'eiddo buddsoddi' neu 'eiddo, offer a chyfarpar' wedi'i seilio ar y defnydd y bwriedir ei wneud o'r eiddo. Caiff eiddo a gedwir er mwyn ennill rhent y farchnad, neu ar gyfer arbrisant cyfalaf, neu'r ddau, ei ddsbarthu fel eiddo buddsoddi. Caiff eiddo a ddefnyddir at ddibenion gweinyddol, neu a gedwir er mwyn darparu tai cymdeithasol, ei drin fel eiddo, offer a chyfarpar.

Caiff gwerth teg eiddo buddsoddi ei fesur bob blwyddyn a nodir unrhyw newid o fewn y gwarged neu'r diffyg yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

Prisiwyd pob eiddo buddsoddi fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2020. Cafodd eiddo buddsoddi Linc ei brisio gan Savills (UK) Limited, Syrfewyr Siartredig, priswyr allanol proffesiynol. Paratowyd yr adroddiad prisio yn unol â 'RICS Valuation – Global Standards' (gan ymgorffori Safonau Prisio Rhyngwladol yr IVSA), a ddaeth i rym ar 31 Ionawr 2020, ynghyd â'r 'UK National Supplement', pan fo'n berthnasol, a ddaeth i rym ar 14 Ionawr 2019, yn ogystal â'r 'Llyfr Coch'.

# Nodiadau'n ymwneud â Datganiadau Ariannol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## Wrth bennu gwerth cyfredol y farchnad:

Ar gyfer eiddo Cwrt Pen y Bryn yng Nghaerdydd, arenillion net o 6.0% ar farn Savills o Rent Net y Farchnad (gan dybio costau gweithredu o 25%), cyn didynnu costau safonol y prynwr o 7.55%.

Ar gyfer yr 16 eiddo sy'n weddill, yn bennaf mae Savills wedi ystyried gwerthoedd cyfalaf yn seiliedig ar eiddo tebyg ac yna maent wedi cymhwyso arenillion gros targed o 6.0% yn seiliedig ar eu barn o Rent y Farchnad sy'n adlewyrchu ystod o ostyngiadau rhwng 3% - 21% o'r gwerthoedd VP, a gostyngiad cyfunol cyfartalog o 6.1%.

Mae'r Bwrdd wedi defnyddio adroddiad yr arbenigwr annibynnol i bennu gwerth teg yr eiddo buddsoddi fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd prisiad yr arbenigwr annibynnol yn cynnwys 'ansicrwydd prisio materol' yn unol â VPS 3 a VPGA 10 'Red Book Global' Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). O'r herwydd, dylid rhoi llai o sicrwydd a mwy o ofal ynghlwm wrth brisiad yr eiddo buddsoddi nag a roddid yn arferol. Mae'r Bwrdd wedi ystyried yr ansicrwydd prisio materol a gynhwysir yn adroddiad yr arbenigwr annibynnol, ac er bod yn rhaid rhoi llai o sicrwydd a mwy o ofal ynghlwm wrth y prisiad, gellir parhau i ddibynnu arno. O'r herwydd, mae'r Bwrdd o'r farn fod y prisiad a gynhwysir yn adroddiad yr arbenigwr annibynnol yn adlewyrchiad cywir o werth teg yr eiddo buddsoddi.

## g) Benthyciadau Cymorth Prynu Derbyniadwy

Yn achos benthyciadau a roddir i'r rhai sy'n mynd ati i brynu eiddo dan fenter Cymorth Prynu neu gynllun Perchentyaeth Cost Isel, caiff y benthyciadau hyn eu trin fel buddsoddiad ased sefydlog. Mae gan Linc gyfrannau ecwiti mewn cartrefi a brynir dan y cynlluniau Cymorth Prynu a Pherchentyaeth Cost Isel.

Yn unol ag FRS 109, caiff y rhain eu trin fel benthyciadau consesiynol.

Pan fo Linc wedi caffael eiddo islaw gwerth y farchnad (e.e. trwy gytundeb adran 106), caiff y gwahaniaeth rhwng y gost a gwerth y farchnad ar yr adeg y prynir yr eiddo ei ystyried fel grant. Caiff y buddsoddiad mewn cynlluniau Cymorth Prynu a Pherchentyaeth Cost Isel ei gynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol am y gost (gwerth cychwynnol cyfran ecwiti Linc).

Ar ôl gwerthu'r eiddo, bydd Linc yn cael cyfran o enillion y gwerthiant, sy'n cyfateb i gyfran ecwiti (canran) Linc yn yr eiddo. Gellir ailgylchu'r grant a gafwyd dan gynlluniau Cymorth Prynu a Pherchentyaeth Cost Isel ar ôl gwerthu'r eiddo yma.

## h) Amhariad Eiddo Tai Cymdeithasol

Yn achos eiddo a gedwir am ei fudd cymdeithasol, ni chaiff ei gadw'n gyfan gwbl am y llif arian parod a gynhyrchir ganddo; caiff ei gadw am ei botensial gwasanaeth hefyd.

Cynhelir asesiad ar bob dyddiad adrodd i weld a oes dangosydd amhariad yn bodoli. Os oes dangosydd o'r fath yn bodoli, caiff asesiad amhariad ei gynnal a gwneir amcangyfrif ynghylch swm adenilladwy'r ased. Pan fydd swm 'cario ymlaen' yr ased yn fwy na'i swm adenilladwy, caiff colled amhariad ei chydabod ar ffurf gwaged neu ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Swm adenilladwy ased yw'r swm uchaf o'i werth mewn defnydd a'i werth teg namyn costau gwerthu. Pan gedwir asedau am eu potensial gwasanaeth, caiff y gwerth mewn defnydd ei bennu gan werth presennol y potensial gwasanaeth gweddillol sy'n perthyn i'r ased yn ogystal â'r swm net y disgwylir ei gael o'i waredu. Ystyrir cost amnewid wedi'i dibrisio fel model mesur addas.

Caiff colled amhariad ei gwrthdroi os bydd y rhesymau dros yr amhariad yn peidio â bod yn berthnasol a chaiff ei chynnwys ar ffurf gwaged neu ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

# Nodiadau'n ymwneud â Datganiadau Ariannol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## i) Grant Tai Cymdeithasol a Grant Cyllid Tai

Ar y cychwyn, bydd holl grantiau'r llywodraeth yn ymddangos fel credydwr yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn ôl gwerth teg y swm derbyniadwy. Caiff grantiau eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes yr ased, oni bai y cânt eu derbyn mewn perthynas â darparu eiddo dan y cynlluniau Cymorth Prynu neu Berchentyaeth Cost Isel. Mewn achosion o'r fath, dim ond pan gaiff y benthyciad ei ad-dalu'n llwyr y cynhwysir y grantiau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### Grant Tai Cymdeithasol

Mae modd cael Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru. Bydd modd derbyn y Grant Tai Cymdeithasol yn llawn ar ôl i'r eiddo gael ei ddatblygu neu ei gaffael.

### Grant Cyllid Tai

Mae Llywodraeth Cymru yn talu Grant Cyllid Tai tuag at gostau asedau tai dros gyfnod o 30 mlynedd, a hynny er mwyn rhoi cymhorthdal tuag at y costau cyfalaf a llog sydd ynghlwm wrth ddarparu tai fforddiadwy. Caiff gwerth presennol net y Grant Cyllid Tai sy'n dderbyniadwy dros y cyfnod talu y cytunwyd arno ei gydnabod fel grant cyfalaf a dyledwr gohiriedig.

Pan dderbynnir y taliadau grant, bydd y dyledwr yn gostwng yr elfen gyfalaf a chaiff y gwahaniaeth rhwng hyn a swm y grant a dderbyniwyd ei gredu i warged neu ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr fel cyfraniad at y gost o gyllido'r cynllun hwnnw. Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifiadau gwerth presennol net yr un fath â'r gyfradd a ddefnyddir ar gyfer y benthyca cysylltiedig i gyllido'r asedau tai.

### Grant wedi'i Ailgylchu

Ystyrir bod yn rhaid ad-dalu elfen grant cyfalaf y Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Cyllid Tai ar ôl gwaredu ased tai cysylltiedig. Caiff hyn ei drin fel Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu yn y Gronfa Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu a'i gynnwys yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel credydwr.

Pan gaiff tir neu adeiladau eu caffael islaw pris y farchnad, e.e. fel rhan o gytundeb a106, mae'r gwerth 'cario ymlaen' yn adlewyrchu gwerth teg yr ased a dderbyniwyd, ac ystyrir y cymhorthdal sydd ymhlyg yn y trefniant fel grant a chaiff ei ychwanegu at y credydwr grant.

## j) Grantiau Addasiadau

Caiff Grantiau Addasiadau eu talu gan Lywodraeth Cymru tuag at y gost o wneud gwaith addasu er budd unigolion anabl. Caiff y grantiau eu gosod fel treuliau refeniw yn yr un flwyddyn ag yr ysgwyddir y costau addasu. Yn y bôn, mae gwariant ar addasiadau yn golygu addasu'r ystafell/eiddo er budd unigolion a chanddynt anabledau, ac nid yw'n golygu gwella'r eiddo neu gynyddu gwerth yr eiddo.

## k) Grantiau Perchentyaeth

Mae Linc yn gyfrifol am fonitro Grantiau Perchentyaeth. Yn ôl y grantiau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenswm sy'n cyfateb i 30% o werth ein cost ni o'r eiddo i brynwr a gyflwynir gan Linc. Caiff y blaenswm ei sicrhau gan arwystl ar yr eiddo yn enw Linc gydag is-arwystl yn enw Llywodraeth Cymru. Pan gaiff yr eiddo ei werthu, bydd Linc yn gyfrifol am sicrhau bod 30% o enillion y gwerthiant neu'r grant (pa un bynnag fydd leiaf) yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru.

# Nodiadau'n ymwneud â Datganiadau Ariannol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## **l) Buddsoddiad mewn Is-gwmni**

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn ymwneud â Linc a'i is-gwmni, Tarbed Cyfyngedig. Gellir cael copïau o ddatganiadau ariannol Tarbed Cyfyngedig gan Ysgrifennydd Cwmni Tarbed. Mae Linc yn berchen yn llwyr ar Tarbed, a Tarbed yw'r unig is-gwmni sydd gan Linc.

## **m) Caiff Benthyciadau Tai a Benthyciadau Eraill eu Dosbarthu fel Offerynnau Ariannol Sylfaenol**

Caiff benthyciadau eu blaendalu gan Fanciau a Chymdeithasau Tai dan delerau gweithredoedd morgeisi unigol mewn perthynas â phob eiddo neu gynllun tai.

Caiff benthyciadau sy'n dwyn llog eu cydnabod ar y cychwyn yn ôl gwerth presennol taliadau'r dyfodol gyda disgownt ar gyfradd llog y farchnad. Wedi hyn, caiff benthyciadau sy'n dwyn llog eu nodi ar gost amorteiddiedig gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, namyn unrhyw golledion amhariad.

Caiff benthyciadau o ffynonellau'r Llywodraeth a chanddynt gyfradd llog islaw cyfradd y farchnad eu trin fel benthyciadau consesiynol.

## **n) Cronfa Wrth Gefn Ddynodedig ar gyfer Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw yn y Dyfodol i Eiddo Anghenion Arbennig**

Mae cronfa wrth gefn ddynodedig wedi'i sefydlu i gydnabod mai Linc sy'n gyfrifol am dalu costau cynnal a chadw yn y dyfodol i gynnal yr eiddo yma yn unol â'r cytundeb rhwng Linc a'r asiantau rheoli.

## **o) Cronfa Wrth Gefn Ddynodedig ar gyfer Amnewid Cyfarpar Gwasanaethau**

Mae cronfa wrth gefn ddynodedig wedi'i sefydlu i gydnabod cronfeydd a dderbyniwyd gan denantiaid fel rhan o'r tâl gwasanaeth i amnewid cyfarpar.

## **p) Arian Parod ac Eitemau sy'n Cyfateb i Arian Parod**

Mae arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian parod wrth law a chyfrifon cadw ar gais, ynghyd â buddsoddiadau byrdymor eraill hylifol iawn y gellir eu troi'n rhwydd yn symiau hysbys o arian parod gyda risg fach iawn o weld newid yn eu gwerth.

## **q) Trosiant**

Mae trosiant yn cynrychioli rhenti a thaliadau gwasanaeth derbyniadwy (ar ôl ystyried colledion rhent a thaliadau gwasanaeth yn sgil eiddo gwag) ac incwm ffioedd sy'n deillio o gartrefi gofal. Caiff incwm taliadau gwasanaeth ei gydnabod ar yr adeg yr ysgwyddir y gwariant, oherwydd ystyrir mai ar yr adeg honno y cyflawnir y gwasanaeth ac y bodlonir y meini prawf cydnabod refeniw.

## **r) Gwerthu Eiddo Tai**

Caiff y gwarged neu'r diffyg ar werthu eiddo o bob math ei gynnwys yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y cafodd yr eiddo ei waredu. Pan fydd perchnogion eiddo rhanberchnogaeth yn arfer eu hawl i gynyddu'r gyfran ecwiti yn eu heiddo, caiff y gwarged neu'r diffyg ei gyfrifo ar y gyfran o'r eiddo a werthir ar werth cyfredol y farchnad.

# Nodiadau'n ymwneud â Datganiadau Ariannol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## s) Grantiau Refeniw

Caiff grantiau refeniw eu credydu i incwm dros y blynyddoedd ariannol sy'n berthnasol i'r grant.

## t) Gwaith Atgyweirio Eiddo Presennol

Caiff gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a wneir i eiddo presennol ei nodi yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn yr eir i'r afael â'r gwaith atgyweirio. Mae hyn yn cynnwys gwaith atgyweirio beunyddiol, gwaith atgyweirio cylchol, a'r gwaith cynnal a chadw cynlluniedig hwnnw na chaiff ei gyfalafu yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Yn achos gwariant a ysgwyddir mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw cynlluniedig ar gyfer amnewid neu wella saith categori penodol o gydrannau, caiff y gwariant hwn ei gyfalafu yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn ystod y flwyddyn yr ysgwyddir y gwariant.

## u) Dosrannu Costau Gweinyddu

Caiff costau gweinyddu a gweithredu uniongyrchol eu cynnwys yn adrannau perthnasol y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar sail y gwariant gwirioneddol. Caiff costau gweinyddu, cyllid a rheoli anuniongyrchol eu dosrannu ymhellach i weithgareddau penodol Linc ar sail nifer yr unedau mewn rheolaeth.

## v) Costau Pensiynau

Mae Linc yn rhoi cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar waith ar gyfer ei holl staff. Caiff asedau'r cynllun eu cadw ar wahân i asedau Linc mewn cronfeydd a weinyddir yn annibynnol. Caiff buddion ymddol ar gyfer cyflogeion Linc eu hariannu trwy gyfrwng cyfraniadau gan Linc a'r cyflogeion. Gwneir y taliadau i 'gynllun prynu arian' a weithredir gan AEGON Plc. Gosodir y costau fel treuliau a dalwyd.

Ymhellach, mae Linc yn darparu cynllun pensiwn er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth bensiynau 'cofrestru awtomatig' Llywodraeth y DU. Mae cofrestru awtomatig yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyflogwyr gofrestru eu cyflogeion mewn cynllun pensiwn gweithle cymwys, os nad ydynt eisoes yn aelod o gynllun o'r fath. Mae cynllun cofrestru awtomatig Linc ar gael i bob cyflogai nad yw'n gymwys i ymuno â chynllun pensiwn AEGON. Caiff yr holl daliadau a wneir dan gynllun cofrestru awtomatig Linc eu talu i NEST, sef cynllun pensiwn a sefydlwyd ac a weithredir gan Lywodraeth y DU.

## w) Asedau ar Les

Ar y cychwyn mae Linc yn asesu cytundebau sy'n trosglwyddo'r hawl i ddefnyddio asedau. Mae'r asesiad yn ystyried a yw'r cytundeb yn les, neu a yw'n cynnwys les, ar sail sylwedd y cytundeb.

### Asedau ar Les Cyllid

Yn achos lesoedd asedau lle trosglwyddir i raddau helaeth yr holl risgiau a'r holl fuddion sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth, cânt eu dosbarthu fel lesoedd cyllid.

Caiff lesoedd cyllid eu cyfalafu ar gychwyn y les fel asedau ar werth teg yr ased a lesir, neu os yw'n is, ar werth presennol isafswm taliadau'r les a gyfrifir trwy ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y les.

Caiff asedau eu dibrisio dros gyfnod y les neu dros oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased, pa un bynnag fydd fyrraf. Caiff asedau eu hasesu am amhariad ar bob dyddiad adrodd.



## **Nodiadau'n ymwneud â Datganiadau Ariannol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020**

Caiff yr elfen gyfalaf sydd ynghlwm wrth ymrwymadau les ei chofnodi fel rhwymedigaeth ar ddechrau'r trefniant. Caiff taliadau les eu dosrannu rhwng ad-daliadau cyfalaf a thaliadau cyllid, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, er mwyn cynhyrchu tâl cyson ar falans yr ad-daliadau cyfalaf sy'n weddill.

### **Asedau ar Les Weithredol**

Yn achos lesioedd nad ydynt yn trosglwyddo'r holl risgiau a'r holl fuddion sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth, cânt eu dosbarthu fel lesioedd gweithredol. Caiff taliadau dan lesioedd gweithredol eu nodi ar ffurf gwarged neu ddiffyg yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros oes y les.

### **x) Llog Taladwy**

Costau llog a chostau eraill a ysgwyddir mewn perthynas â benthyca arian – dyna yw costau benthyca. Caiff costau benthyca eu cyfrifo trwy ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol, sef y gyfradd sy'n lleihau'n union y derbyniadau neu'r taliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig offeryn ariannol ac a bennir ar sail 'swm cario ymlaen' y rhwymedigaeth ariannol ar y cychwyn.

Dan y dull llog effeithiol, y gost amorteiddiedig sydd ynghlwm wrth rwymedigaeth ariannol yw gwerth presennol y taliadau arian parod yn y dyfodol gyda disgownt ar y gyfradd llog effeithiol, ac mae'r gwariant llog mewn cyfnod arbennig yn cyfateb i 'swm cario ymlaen' y rhwymedigaeth ariannol ar gychwyn y cyfnod wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer y cyfnod.

### **y) TAW**

Mae mwyafrif yr incwm a gaiff Linc yn sgil rhenti a ffioedd wedi'i eithrio rhag TAW. Ni chodir TAW ar renti tenantiaid nac ar ffioedd cartrefi gofal. Mae gan Linc denantiaid masnachol sy'n rhentu swyddfeydd, a chaiff TAW ar y gyfradd safonol – sef 20% ar hyn o bryd – ei chodi ar yr incwm rhent. Oherwydd natur eithriedig yr incwm rhent, dim ond symiau bach iawn o TAW mewnbyn y gall Linc eu hadennill.

### **z) Offerynnau Ariannol**

Caiff offerynnau ariannol sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer offeryn ariannol sylfaenol, fel y'u nodi yn Adran 11 FRS 102, eu hesbonio dan fodel cost hanesyddol amorteiddiedig.

Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod ar gost hanesyddol amorteiddiedig.

### **aa) Cyfuniad Busnes: Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig a Chymdeithas Tai Baneswell Cyfyngedig**

Mae Trosglwyddo Ymrwymadau yn gyfuniad busnes sydd, yn y bôn, yn gyfystyr â rhodd yn unol â SORP 2018. Caiff cyfuniad sydd, yn y bôn, yn rhodd ei ddiffinio fel cyfuniad a wneir heb unrhyw gost neu â chost enwol yn unig ynghlwm wrtho, sef cyfuniad nad yw'n gyfnewid gwerth teg ond sydd, yn y bôn, yn rhodd o un endid i'r llall.

# Nodiadau'n ymwneud â Datganiadau Ariannol Cymdeithas Tai Linc-Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

## 2. (a) Manylion trosiant, gwariant gweithredu a gwarged gweithredu

### Y Grŵp

		Mawrth 2020				Ailddatganwyd Mawrth 2019			
Nodyn		Trosiant £000	Incwm Arall £000	Gwariant Gweithredu £000	Gwarged Gweithredu £000	Trosiant £000	Incwm Arall £000	Gwariant Gweithredu £000	Gwarged Gweithredu £000
<b>Gosod tai cymdeithasol</b>	2b	28,206	0	(24,128)	4,078	25,777	0	(20,611)	5,166
<b>Gweithgareddau eraill yn ymwneud â thai cymdeithasol</b>	3								
Enillion ar waredu eiddo, offer a chylfarpar		0	2	0	2	0	316	0	316
Enillion ar drosglwyddo ymgymeriadau		0	2,363	0	2,363	0	0	0	0
Arall		0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Is-gyfanswm gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â thai cymdeithasol</b>		28,206	2,365	(24,128)	6,443	25,777	316	(20,611)	5,482
